ISLAMOFFOBIA

PECYN ADDYSG

I'w ddefnyddio gyda'r DVD **ISLAMOFFOBIA**

Dangos y Cerdyn **COCH** i Hiliaeth

CYNNWYS

SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN HWN 1

CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM 1

BETH YW ISLAMOFFOBIA? 2
Diffiniad 2
Sylwadau Allweddol a Phwyntiau Trafod 2
Gweithgaredd 1: Cwis Chwalu Mythau 3
Gweithgaredd 2: Deall Effaith Islamoffobia 3
Gweithgaredd 3: Sut Fyddech Chi'n Teimlo? 4

O BLE DDAW ISLAMOFFOBIA? 5
Sylwadau Allweddol a Phwyntiau Trafod 5
Gweithgaredd 1:
Dw i'n Gwybod am Ddiwylliant Sydd... 5
Gweithgaredd 2: Mythau'r Cyfryngau 7
Gweithgaredd 3: Terfysgaeth a'r Cyfryngau 11
Gweithgaredd 4:
Terfysgaeth yn ei Chyd-destun Hanesyddol 11

BYWYD FEL MWSLIM 13
Sylwadau Allweddol a Phwyntiau Trafod 13-14
Gweithgaredd 1: Archwilio Hunaniaeth 14
Gweithgaredd 2:
Amir Khan: Mwslim Prydeinig 14
Gweithgaredd 3: Gorchuddion Pen 17
Gweithgaredd 4: Stori Shabina 18

DANGOS Y CERDYN COCH I BOB HILIAETH 18
Sylwadau Allweddol a Phwyntiau Trafod 18-19
Gweithgaredd 1: Beth allech chi ei wneud
i frwydro yn erbyn hiliaeth ac Islamoffobia
yn eich ysgol a'r gymuned ehangach? 19

GWEITHGAREDDAU YMHELAETHU: 20
Gweithgaredd 1: Cyfraniadau Mwslimaidd 20
Gweithgaredd 2: Erledigaeth a Phropaganda 22

RHESTR O DERMAU ISLAMAIDD 23

CYSYLLTIADAU 24

PRIF NODDWYR DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH:

CAFODD Y GWAITH YMA EI NODDI GAN:

cyfieithu a chysodi
WORDSapart.co.uk
translating & typesetting

Ewch i **www.theredcard.org** i gael Adnoddau Addysgol ychwanegol a rhai wedi'u diweddaru

SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN HWN

Pwrpas y pecyn yma yw gweithio ochr yn ochr â DVD 'Islamoffobia' Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n addas ar gyfer gweithio gydag ystod o oedrannau, o blant blynyddoedd hŷn Cyfnod Allweddol 2 i oedolion. Nid ei bwrpas yw darparu addysg am y ffydd Islamaidd, mae nifer o adnoddau sy'n ymdrin â hyn yn bodoli'n barod i'w defnyddio yn y cwricwlwm Addysg Grefyddol. Cafodd y gweithgareddau eu llunio i helpu pobl ifanc i herio stereoteipiau a rhagfarn tuag at Fwslimiaid a dod yn fwy ymwybodol, yn hanesyddol ac yn wleidyddol, o'r hinsawdd sydd wedi galluogi i Islamoffobia ddatblygu mewn cyfnodau diweddar.

Mae'r ffilm wedi'i rhannu'n bedair adran ac yn y pecyn yma fe welwch sylwadau allweddol a phwyntiau trafod perthnasol i bob un. Efallai y byddai cychwyn trafodaeth gyda'r dosbarth yn ymwneud â'r pwyntiau cychwyn rydym wedi'u hawgrymu yn rhoi cyflwyniad defnyddiol i'r gweithgaredd/gweithgareddau sydd wedi'u hawgrymu a fydd yn dilyn ymhob un o'r pedair adran, a gall athrawon eu teilwra i gyfateb ag anghenion eu myfyrwyr. Rydym wedi amcangyfrif faint o amser y bydd pob gweithgaredd yn para ond bydd hyn wrth gwrs yn dibynnu ar alluoedd y myfyrwyr.

Ar gael hefyd gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth mae DVD gyda Phecyn Addysg o'r enw DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH sy'n archwilio hiliaeth mewn cyd-destun ehangach: gall hwn fod yn adnodd defnyddiol yn aml iawn i'w ddefnyddio gyda'r dosbarth cyn symud ymlaen i archwilio Islamoffobia – gallwch weld rhagor o wybodaeth ar www.theredcard.org

Rydym wedi trawslythrennu'r enwau neu'r termau Arabeg yn y pecyn yma fel eu bod wedi'u sillafu gyda'r wyddor Gymraeg ac yn ôl rheolau ynganu'r Gymraeg. Os yw'r gair yn wahanol iawn i'r ffordd mae wedi'i sillafu yn y Saesneg, rydym wedi rhoi'r ffurf Saesneg mewn cromfachau er mwyn gwneud pethau'n haws os byddwch yn chwilio am wybodaeth bellach.

CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM

Mae'r pecyn hwn yn clymu'n agos iawn â'r cwricwlwm Dinasyddiaeth ac ABCh.

Cyfnod Allweddol 2 Dinasyddiaeth

- Datblygu hyder a chyfrifoldeb a manteisio i'r eithaf ar eu galluoedd: 1a, 1c
- Paratoi i chwarae rôl weithredol fel dinasyddion: 2a, 2c, 2e, 2i, 2k
- Datblygu perthnasoedd da a pharchu'r gwahaniaethau rhwng pobl: 4a, 4b, 4d, 4e, 4f

Cyfnodau Allweddol 3 a 4 Dinasyddiaeth

- Gwybodaeth a Dealltwriaeth ynglŷn â dod yn ddinasyddion deallus: 1b, 1i
- Datblygu sgiliau ymholi a chyfathrebu: 2a, 2b, 2c
- Datblygu sgiliau cyfranogi a gweithredu cyfrifol: 3a
- ABCh
- Cyfnod Allweddol 3: 3a, 3b, 3d, 3j
- Cyfnod Allweddol 4: 3a, 3c

Gallech hefyd gynnwys y gweithgareddau sydd yn y pecyn hwn yn y cwricwla Saesneg, Addysg Grefyddol, Hanes a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

CWRICWLWM YR ALBAN

Cwricwlwm Rhagoroldeb

Nod y pecyn hwn yw mynd i'r afael â galluoedd craidd safonau'r Cwricwlwm Rhagoroldeb fel y cawsent eu penderfynu gan Weithrediaeth yr Alban yn 2004. Cafodd y pecyn hwn ei lunio i ymgysylltu myfyrwyr â phob un o'r 4 gallu, megis:

- Dysgwyr llwyddiannus: Trwy ddysgu sut i gael gafael ar wybodaeth o wahanol ffynonellau a'i defnyddio, caiff y dysgwyr eu hannog i feddwl yn feirniadol am dystiolaeth a dadleuon i ganfod eu barn a'u syniadau eu hunain. Yn ogystal â hynny, mae'r dysgwyr yn dysgu sut i gyfiawnhau'r rhain mewn trafodaeth a dadl.
- Unigolion hyderus: Bydd galluogi dysgwyr i ddeall eu hamgylchedd a'u cymuned yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'r materion gwleidyddol a chymdeithasol. Nod y gweithgareddau yw datblygu hyder y dysgwyr i ddadlau materion cymdeithasol, gwleidyddol a hanesyddol.
- Dinasyddion cyfrifol: Trwy ddysgu am werthoedd, credoau a diwylliannau cymdeithasau, bydd dysgwyr yn dod yn fwy awyddus i gwestiynu rhagfarnau ac anoddefiad ac yn datblygu parch tuag at bobl eraill. Nod y pecyn yw annog dysgwyr i gymryd rhan mewn ffordd gyfrifol mewn bywyd gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol.
- Cyfranwyr effeithiol: Caiff y dysgwyr eu herio i feddwl am ffyrdd o gyfrannu'n gadarnhaol fel cyfranogwyr gweithgar mewn cymdeithas ddinesig. Caiff y dysgwyr y grym i sianelu eu gwybodaeth i weithredu'n bositif, a fydd o fudd i bobl eraill yn y cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Mae'r gweithgareddau yn y pecyn gwybodaeth yma'n caniatáu i'r athro/hwyluswr annog trafodaeth, herio barn a datblygu gwybodaeth am faterion cymdeithasol. Gallwch ddefnyddio'r pecyn hefyd i roi gwybod i ddefnyddwyr am addysg grefyddol a moesegol mewn ffordd heriol ac ymgysylltiol. Nod y pecyn yw caniatáu i ddysgwyr ddatblygu'r galluoedd yma drwy amgylchedd dysgu ag iddo strwythur a chefnogaeth.

1. BETH YW ISLAMOFFOBIA?

YN YR ADRAN HON, MAE CHWARAEWYR PÊL-DROED A PHOBL IFANC YN ARCHWILIO'R HYN A OLYGIR GAN Y TERM ISLAMOFFOBIA A PHA EFFEITHIAU A GAIFF Y MATH YMA O HILIAETH AR EU BYWYDAU EU HUNAIN.

DIFFINIAD:

Caiff Islamoffobia ei gyfieithu'n llythrennol fel ofn Islam. Caiff ei ddefnyddio i gyfeirio at ragfarn neu wahaniaethu yn erbyn Mwslimiaid ac mae'n cynnwys y syniad nad oes gan Islam unrhyw werthoedd yn gyffredin gyda diwylliannau eraill, ei fod yn israddol i'r Gorllewin a'i fod yn ideoleg wleidyddol dreisgar yn hytrach na chrefydd. Mae'r term ei hun yn dyddio'n ôl i'r 1980au ond dechreuodd gael ei ddefnyddio'n gyffredin ar ôl ymosodiadau Medi 11eg yn America yn 2001.

Pwyntiau Trafod:

- Beth sy'n achosi i bobl ofni Islam/rhywbeth?
  - **Anwybodaeth:** gellir dod dros hyn drwy gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth **DS** Mae rhestr o dermau Islamaidd yn y cefn
  - **Terfysgaeth:** caiff hyn ei archwilio yn yr adran nesaf, ond nodwch fod Mwslimiaid hefyd wedi marw mewn ymosodiadau terfysgaeth sy'n ymddangos fel pe baent wedi'u cyflawni yn eu henw nhw
- Pa ffactorau allai ddangos bod rhywun o ffydd arbennig? Ydy hi'n bosibl gwybod drwy edrych ar berson beth maen nhw'n ei gredu neu pa grefydd y maen nhw'n ei ddilyn?
- Ystyriwch yr enghreifftiau dilynol o Islamoffobia a welwch yn yr adran hon yn y ffilm – ar gyfer pob un efallai yr hoffech drafod pwy ddioddefodd a pham a phwy oedd ag ofn, gyda pha ganlyniadau. Ymhob achos, gofynnwch i'r dosbarth hefyd a oedd ymatebion pobl yn deg a chymesur:
  - **Mido yn dioddef geiriau hiliol cas gan gefnogwyr Newcastle**
    Cafodd rhai o gefnogwyr Newcastle eu clywed yn gweiddi 'Mido is a bomber' yn ystod y gêm yn y Riverside ar 26/08/2007
  - **Yr heddlu'n ymlid tîm pêl-droed Glasgow Ansar gyda hofrenyddion a faniau**
    Beth yw'r peryglon pan fydd yr heddlu'n rhannu syniadau anghywir / camdybiaethau am bobl sy'n edrych neu'n gwisgo mewn ffordd arbennig?
  - **Merch fach yn crïo wrth fynd ar awyren gyda dau ddyn Sikh**
    Does dim rhaid i chi fod yn Fwslim i ddioddef Islamoffobia – mae'n fath o hiliaeth sydd wedi'i seilio'n aml iawn ar liw croen yn unig
- Ydych chi erioed wedi teimlo'n isel ac unig am fod pobl yn eich camddeall?

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **THIERRY HENRY:** Dydw i erioed wedi darllen yn y Corân, na chlywed Mwslim go iawn yn siarad am y pethau a welwch ar y teledu weithiau
- **PERSON IFANC:** Fy nhad, mae'n berson crefyddol – mae ganddo farf ac ati – ond mae ganddo ofn mynd allan
- **GARETH SOUTHGATE:** Mae gennym 2 neu 3 chwaraewr Mwslimaidd gyda ni nawr a dydy hyn ddim yn rhywbeth sy'n cael ei grybwyll o gwbl yn ein hystafell wisgo neu glwb
- **MIDO:** Does dim rheswm o gwbl i glywed yr holl gamdriniaeth yma yn ein bywydau nac mewn pêl-droed felly roeddwn yn teimlo'n rhwystredig iawn amdano
- **PERSON IFANC:** Yn syth ar ôl bomio 7/7 roedd pobl yn edrych arnom yn wahanol a doedd rhai o'n cyfeillion da ddim mor agos â hynny i ni wedyn
- **PERSON IFANC:** Dydw i byth yn teimlo'n gyfforddus ar gludiant cyhoeddus, rwy'n anghyfforddus gyda fy ardal fy hun, fy mywyd cymdeithasol fy hun, ac mae'n gwneud i mi deimlo'n isel ac yn unig

GWEITHGAREDD 1: (15 MUNUD)
CWIS CHWALU MYTHAU

MAE'R CWIS YMA'N YMDDANGOS FEL GWEITHGAREDD RHYNGWEITHIOL Y GALLWCH GAEL ATO DRWY DDEWISLEN Y DVD.

1. Mae Islam yn golygu ildio neu ymostwng i ewyllys duw.

GWIR

Mae Mwslim yn ddilynwr Islam.

2. Islam yw'r ail fwyaf o grefyddau'r byd.

GWIR

Mae gan Gristnogaeth 2 biliwn o ddilynwyr; mae gan Islam 1.3 biliwn o ddilynwyr, ac mae gan Hindŵaeth 900 miliwn.

3. Mae pob Mwslim yn Arab

ANGHYWIR

Er bod Islam wedi'i gysylltu'n aml iawn ag Arabiaid, dim ond 15% o boblogaeth Fwslimaidd y byd sy'n Arabiaid. Y wlad gyda'r boblogaeth Fwslimaidd fwyaf yw Indonesia. Ceir niferoedd mawr o Fwslimiaid yn Asia (mae 69% o'r boblogaeth yn Fwslimiaid), Affrica (mae 27% yn Fwslimiaid), Ewrop (mae 3% yn Fwslimiaid) a rhannau eraill o'r byd.

4. Mae Mwslimiaid yn addoli duw gwahanol i Gristnogion ac Iddewon.

ANGHYWIR

Ystyr 'Al-lâh' yn syml yw duw, ac mae gwreiddiau'r ffydd Islamaidd, Iddewig a Christnogol oll yr un fath.

5. Yr enw ar lyfr sanctaidd y Mwslimiaid yw'r Corân.

GWIR

6. Mewn hanes diweddar mae merched wedi rheoli mewn pedair gwlad Islamaidd.

GWIR

Ymysg y merched Mwslimaidd sydd wedi rheoli gwledydd yn ddiweddar y mae Megawati Sukarnoputri o Indonesia, Benazir Bhutto o Bacistan, Tansu Çiller o Dwrci, a Khaleda Zia a Sheik Hasina Wazed o Fangladesh.

7. Dim ond yn y 100 mlynedd diwethaf y mae Mwslimiaid wedi dod i Brydain.

ANGHYWIR

Yn ôl yn 760 AD roedd geiriau Arabeg gyda cherddi o'r Corân ar arian Eingl-Sacsonaidd. Cyrhaeddodd y grŵp mawr cyntaf o Fwslimiaid y DU oddeutu 300 mlynedd yn ôl ac roeddent yn forwyr a gafodd eu recriwtio o India.

8. Mae oddeutu 5.7 miliwn o Fwslimiaid yn yr UDA.

GWIR

Mae tua'r un faint o bobl Fwslimaidd a phobl Iddewig yn yr Unol Daleithiau.

9. Mae Islam yn grefydd dreisgar sy'n annog terfysgaeth.

ANGHYWIR

Yn 2007, cyhoeddodd Cyngor Mwslimiaid Prydain y datganiad canlynol: "Mae Mwslimiaid ymhob man yn ystyried pob gweithred o derfysg sydd â'r bwriad o lofruddio a niweidio pobl ddiniwed yn hollol geryddol a ffiaidd. Does dim sail ddiwinyddol o gwbl i weithredoedd o'r fath yn ein ffydd. Ystyr y gair 'Islam' yw heddwch. Mae'n gwrthod terfysg ac yn hybu heddwch a chytgord."

10. Mae Mwslimiaid yn credu mewn priodas orfodol.

ANGHYWIR

Mae'r Corân yn dweud bod gan y ferch hawl i ddewis ei phartner ei hun a dydy'r mwyafrif llethol o Fwslimiaid ddim yn credu mewn priodasau gorfodol.Dydy'r Mwslimiaid sy'n gwneud hyn ddim yn defnyddio Islam i'w gyfiawnhau, dilyn arferion diwylliannol lleol y maen nhw.

GWEITHGAREDD 2: DEALL EFFAITH ISLAMOFFOBIA (30 MUNUD)

Gofynnwch i'r myfyrwyr gofio unrhyw bobl ar y DVD oedd yn ddioddefwyr. Allwn ni gofio beth ddigwyddodd iddynt? Gallwch gymryd y senarios nesaf sy'n dod o'r DVD fel mannau cychwyn ar gyfer gwaith drama, tablo neu, os yw'r grŵp eisiau gwneud hynny, chwarae rôl:

- Mae merch Fwslimaidd yn cerdded adref gyda'i mam ac mae dau fachgen yn gofyn iddi pam fod ganddi liain sychu llestri ar ei phen
- Mae dau ddyn Sikh mewn maes awyr yn aros i ddangos eu tocynnau pan fo merch fach yn edrych arnynt ac yn dechrau crïo
- Mae bachgen mewn gwisg Islamaidd yn mynd ar fws ac yn eistedd. Mae pawb yn edrych arno ac yn dechrau sibrwd a siarad amdano
- Mae merch Fwslimaidd yn gwisgo ei sgarff pen i'r ysgol. Daw bachgen i mewn a'i rwygo oddi ar ei phen ac mae'n gweiddi "Tynn hwnna, mae'n edrych yn wirion"
- Ymosodwyd ar ddyn gan grŵp o 20 o bobl neu fwy gyda chyllell – dioddefodd anafiadau i'w wyneb, ei ben a'i fraich. Roedd yr ymosodwyr yn dweud pethau cas wrth y dyn, er enghraifft "rwyt ti'n derfysgwr, dos adref, dos allan o'n gwlad"

Rhai Awgrymiadau Defnyddiol:

- Mae 'Tablo' (a alwn weithiau'n 'Fferru Ffrâm') yn ddelwedd lonydd lle'r mae'r cyfranogwyr yn creu siapiau corff neu osgo arbennig ac yn eu gosod eu hunain mewn perthynas arbennig â'i gilydd. Maent yn dangos 'ffotograff' lle nad oes symudiad na deialog.
- Gofynnwch i'r myfyrwyr greu dau neu dri dablo i adrodd stori'r person. Gallai hyn fod yn garreg gamu tuag at greu golygfeydd byrion, neu ddod â'r tablo'n 'fyw'.
- Mewn 'Chwarae Rôl' mae'r cyfranogwyr yn eu rhoi eu hunain yn esgidiau rhywun arall er mwyn ceisio deall yr emosiynau sy'n gysylltiedig â mater neu sefyllfa arbennig. Fel arfer, mewn chwarae rôl ceir golygfeydd byrion sy'n digwydd heb sgript neu gynllun.
- Defnyddiwch dechneg o'r enw 'Tracio Meddwl' lle mae'r actorion yn y tablo'n ymateb i gyffyrddiad ar eu hysgwyddau drwy ddweud gair neu frawddeg i ddisgrifio sut maent yn teimlo.
- Ceisiwch roi senario i bob grŵp a chael y cyfranogwyr eraill i ddyfalu beth sy'n digwydd yn y tablo neu'r chwarae rôl.
- Os oes unrhyw fyfyrwyr yn ddigon hyderus gallech roi cynnig ar dechneg o'r enw 'Sedd Boeth' lle mae aelodau eraill y grŵp yn holi cymeriad am ei gefndir, ei ymddygiad, ei deimladau a'r hyn sy'n ei gymell. Gallai hyn weithio'n dda gyda'r troseddwyr yn ogystal â'r sawl sy'n dioddef.

GWEITHGAREDD 3: SUT FYDDECH CHI'N TEIMLO? (15 MUNUD)

Gallwch ddefnyddio'r gweithgaredd yma i gynyddu'r empathi a'r ddealltwriaeth mewn dosbarth o fyfyrwyr nad ydynt erioed mae'n debyg wedi dioddef hiliaeth...

Gofynnwch i'r myfyrwyr gofio unrhyw rai o'r bobl a ddioddefodd Islamoffobia ar y DVD ac ar fwrdd gwyn/siart droi nodwch yr holl senarios maen nhw'n eu cofio, gan dalu sylw arbennig i'r hyn a ddywedwyd a pha eiriau cas a ddefnyddiwyd.

Nawr trefnwch y dosbarth yn gylch, gyda'r cadeiriau'n wynebu i mewn a gwirfoddolwr yn sefyll yn y canol.

Esboniwch i'r dosbarth ei bod hi'n anodd deall sut deimlad fyddai dioddef hiliaeth Islamoffobig os nad ydym wedi ei ddioddef ein hunain, felly gallai'r ymarfer yma helpu i gynyddu empathi a dealltwriaeth y disgyblion.

- Pwysleisiwch reolau'r dosbarth (gan gynnwys Iechyd a Diogelwch) a phwysleisiwch hefyd nad ydynt i droi'r ymarfer yma'n dadlau personol

Mae'n rhaid i bob myfyriwr ddewis un o'r datganiadau Islamoffobig sydd wedi'u rhestru ar y bwrdd a, phan ddaw'r arwydd, rhaid iddynt ddechrau ei adrodd yn ddistaw iawn drosodd a throsodd. Gofynnwch i'r dosbarth ddechrau dweud y datganiad/geiriau cas yn uwch ac yn uwch wrth ailadrodd, gan gynyddu'r ynni a'r cyflymder ac anogwch nhw i ddefnyddio eu dwylo a phwyntio (gan sicrhau bod y myfyrwyr i gyd yn sefyll yn llonydd drwy'r amser). Yna pan ddaw arwydd arall, maent i stopio'r adrodd.

- Gofynnwch i'r gwirfoddolwr sut deimlad oedd cael pawb yn gweiddi arnynt: sut brofiad ydoedd? Oedden nhw wedi mwynhau'r profiad ac a fydden nhw'n mynd trwy'r un peth eto?
- Trafodwch a phenderfynwch gyda'r grŵp pam fo'r math yma o ymddygiad hiliol yn anghywir a byth yn dderbyniol

Nawr gofynnwch i bob aelod o'r cylch feddwl am sylw positif – nid am y person yn y canol yn benodol, ond canmoliaeth gyffredinol yr hoffent i rywun ei rhoi iddyn nhw. Ailadroddwch yr ymarfer nes bo'r myfyrwyr yn gweiddi mor uchel ag y gallwch ei ddioddef!

- Holwch y gwirfoddolwr yn y canol a gweddill y cylch am y gwahaniaeth rhwng y ddau weithgaredd

Ar ôl gadael i fyfyrwyr eraill gael cyfle i wirfoddoli i fod yng nghanol y cylch, cychwynnwch drafodaeth sy'n galluogi i'r dosbarth adolygu a gwerthuso'r digwyddiad.

2. O BLE DDAW ISLAMOFFOBIA?

MAE'R ADRAN HON AR Y DVD YN CYNNIG NIFER O ESBONIADAU A RHESYMAU AM Y CYNNYDD DIWEDDAR MEWN ISLAMOFFOBIA – MAE'R RHAIN YN CYNNWYS OFN, ANWYBODAETH A'R HINSAWDD GEOWLEIDYDDOL SY'N BODOLI AR HYN O BRYD. MAE HEFYD YN CYFEIRIO AT Y FFAITH FOD CYMDEITHASAU'N TARGEDU GRWPIAU PENODOL O BOBL AM GYFNODAU ARBENNIG YN AML IAWN A BOD HYN YN ARWAIN AT GYNNYDD MEWN HILIAETH SYDD WEDI'I GYFEIRIO AT BOBL Y CREDIR EU BOD YN PERTHYN I'R GRWPIAU CYMDEITHASOL ARBENNIG HYNNY.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **LEROY ROSENIOR:** Mae'n rhaid i rywun [bob amser] fod ag ofn rhywbeth a rhoi label arno – yn fy nghyfnod i, roedd gan bawb ofn yr IRA: os oeddech chi'n siarad gydag acen Wyddelig, roeddech yn yr IRA. [Nawr] os ydych yn Islamaidd mae gennych fom o dan eich crys. Os nad ydym yn deall diwylliant, rydym yn ei weld fel bygythiad.
- **NIALL QUINN:** Dydw i ddim yn gweld digon o sylw'n cael ei roi i bobl Fwslimaidd [yn y cyfryngau] – yng Ngogledd Iwerddon pan ddaeth pobl at ei gilydd a siarad a phan ddechreuodd negeseuon ledaenu ymhellach, newidiodd pobl eu barn.
- **LES FERDINAND:** Mae diffyg gwybodaeth yn cychwyn yn y cartref weithiau – mae plant yn edrych ar eu rhieni fel modelau rôl ac os nad yw'r [rhieni] yn gwneud y peth cywir bydd [y plant] yn gwneud yr un fath.
- **GEORGE BOATENG:** Mae gennym bobl grefyddol dda ond mae gennym hefyd bobl grefyddol ddrwg. Y gwir yw nad oes yn rhaid i ni feddwl fod 'pob Mwslim yr un fath' neu fod 'pob Cristion yr un fath' – rhowch gyfle i'r person, dewch i'w nabod, ac [yna] penderfynwch a oes calon dda gan y person hwnnw.
- **PERSON IFANC:** Roedd hi'n teimlo fel petai pobl yn ein beio ni, yn beio'r holl bobl Asiaidd yn Sunderland ac fe newidiodd pethau – aeth pobl yn fwy hiliol.
- **PERSON IFANC:** Pam gafwyd y bomio ar 9/11 nid dim ond pobl Gristnogol a fu farw, roedd [pobl] Mwslimaidd a phobl o grefyddau gwahanol eraill yno hefyd.
- **THIERRY HENRY:** Mae gan y teledu a newyddiadurwyr lawer o bŵer ac [weithiau] maent yn defnyddio'r pŵer yma yn y ffordd anghywir.

Pwyntiau Trafod:

- Sut mae beio pobl Asiaidd yn wahanol i feio Mwslimiaid?
- Ydy hyn yn wahanol i fathau eraill o hiliaeth?
- Pa grwpiau eraill allwch chi feddwl amdanynt lle mae'r mwyafrif yn cael y bai am ymddygiad y lleiafrif?
- Pam nad yw'r wasg yn dweud beth yw ffydd grefyddol pob troseddwr?
- Ydych chi'n darllen straeon am 'ladron Cristnogol' weithiau?

GWEITHGAREDD 1: DW I'N GWYBOD AM DDIWYLLIANT SYDD...
(20 MUNUD)

Copïwch y daflen weithgaredd 'Dw i'n gwybod am ddiwylliant' a welwch dros y dudalen. Dywedwch wrth y bobl ifanc eich bod yn mynd i roi taflen iddynt sy'n disgrifio amrywiol arferion diwylliannol ac, heb eu trafod gyda'u cyfeillion, mae angen iddynt benderfynu sut maen nhw'n teimlo am bob arferiad sydd wedi'i ddisgrifio a rhoi cylch o amgylch yr ansoddair perthnasol.

1. “Un o'u harferion yw defnyddio mathau arbennig o ddillad, nad ydynt ond yn eu gwisgo yn ystod tymhorau arbennig. Mae gwisgo a thynnu'r dilledyn yma, ac amseriad hynny, yn arwyddocaol iawn yn arferion croesawu'r diwylliant yma.”

RHYFEDD	**HYFRYD**
DIDDOROL	**ANNERBYNIOL**
EGSOTIG	**NORMAL**
YN TROI FY STUMOG	**DIFYR**
DIFLAS	

2. “Maen nhw'n bwyta bwyd o bast sydd wedi'i wneud o hadau math o laswellt, ei goginio unwaith ac yna ei losgi wrth ymyl fflam. Yna maent yn ei orchuddio gyda braster anifail ac yn bwyta hwn gydag albwmen o aderyn. Yn draddodiadol dydyn nhw ond yn bwyta hwn ar amseroedd penodol o'r diwrnod.”

RHYFEDD	**HYFRYD**
DIDDOROL	**ANNERBYNIOL**
EGSOTIG	**NORMAL**
YN TROI FY STUMOG	**DIFYR**
DIFLAS	

3. “Mae'r boblogaeth i gyd bron iawn yn gaeth i blanhigyn y maen nhw'n ei yfed gyda dŵr a chynnyrch o anifail neu blanhigion eraill. Maen nhw'n siarad yn agored am y ddibyniaeth yma sydd ganddynt, heb unrhyw gywilydd, ac maen nhw wedi datblygu arferion arbennig yn ymwneud â'i ddefnyddio.”

RHYFEDD	**HYFRYD**
DIDDOROL	**ANNERBYNIOL**
EGSOTIG	**NORMAL**
YN TROI FY STUMOG	**DIFYR**
DIFLAS	

4. “Mae merched fel petaent yn cael amser caled. Mae moderneiddiad fel petai wedi rhoi mwy o waith iddynt ei wneud a dydy'r dynion ddim yn eu parchu o gwbl.”

RHYFEDD	**HYFRYD**
DIDDOROL	**ANNERBYNIOL**
EGSOTIG	**NORMAL**
YN TROI FY STUMOG	**DIFYR**
DIFLAS	

Unwaith y bydd yr holl bobl ifanc wedi cwblhau'r gweithgaredd, gofynnwch i wahanol bobl o amgylch yr ystafell leisio eu barn. Gofynnwch iddynt pam maen nhw'n teimlo fel hyn. Yna, esboniwch beth mae'r datganiadau yma'n ei ddisgrifio mewn gwirionedd:

1. Tynnu eich côt wrth fynd i mewn i dŷ rhywun
2. Bwyta wy ar dost i frecwast
3. Cael paned o de
4. Mae'n disgrifio safle merched ym Mhrydain a nifer o wledydd eraill.

A oedd y bobl ifanc wedi synnu o glywed hyn? Mae'r gweithgaredd yma'n tynnu sylw at y ffaith fod y ffordd yr ydym yn disgrifio arferion yn gallu gwneud iddynt swnio'n rhyfedd, ac hyd yn oed godi ofn ar bobl, ond os cymerwn yr amser i'w deall nhw'n iawn, efallai eu bod nhw'n hollol normal.

Mae pob cartref yn wahanol a chanddynt eu 'harferion' a'u 'diwylliant' eu hunain

Er enghraifft:

- A ddylech dynnu eich esgidiau wrth fynd i mewn i'r tŷ
- A ddylech eistedd wrth y bwrdd i fwyta cinio
- Gwahanol ffyrdd o'ch cyfarch eich gilydd
- Y mathau o fwydydd sy'n cael ei fwyta ar wahanol nosweithiau o'r wythnos

Gofynnwch i aelodau'r dosbarth esbonio pa arferion sydd ganddynt hwy yn eu cartrefi. Os byddai rhywun yn ysgrifennu arweinlyfr o arferion y dosbarth yma'n unig, a fydden nhw'n gallu ei ysgrifennu'n gywir?

GWEITHGAREDD 2: MYTHAU'R CYFRYNGAU (45 MUNUD)

Mae'r gweithgaredd yma wedi'i rannu'n ddwy ran ac mae'n archwilio'r ffordd y mae syniadau'r cyhoedd am gymunedau Mwslimaidd wedi cael eu heffeithio gan bortreadau yn y cyfryngau. I wneud hyn, bydd y myfyrwyr yn dechrau drwy archwilio'r portread a gewch o bobl yn eu harddegau yn y cyfryngau a bydd gofyn iddynt ystyried sut mae'r portread yma'n effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw. Mae taflenni gweithgaredd wedi'u cynnwys a gallwch ddefnyddio'r rhain naill ai fel taflenni gwaith neu fel taflenni annog ar gyfer yr athro dosbarth. Cychwynnwch drwy gyflwyno'r syniad o Fyth yn y Cyfryngau:

Myth y Cyfryngau: Mae'r cyfryngau'n cychwyn 'myth' drwy bortreadu grwpiau'n anghywir am fod ychydig o bobl yn y grwpiau hynny wedi gweithredu mewn ffordd eithafol. Y gweithredu eithafol yma ydy'r elfen sy'n dominyddu'r cyfryngau.

ADRAN UN: Pobl yn eu harddegau

Gofynnwch i'ch myfyrwyr:

- Pan glywch neu gwelwch straeon am bobl yn eu harddegau yn y newyddion, pa fathau o straeon ydyn nhw?
- Yr athro/athrawes i gael sesiwn o daflu syniadau am y stereoteip 'pobl yn eu harddegau' gyda'r myfyrwyr. Y myfyrwyr i gael eu hannog i ystyried 'beth mae'r papurau'n ei ddweud'.

Ewch drwy'r daflen weithgaredd '**Penawdau Newyddion 1: Pobl Yn Eu Harddegau**' gyda'r myfyrwyr (wedi'i darparu isod). A all y myfyrwyr ganfod pa argraff mae'r penawdau hyn yn ei rhoi o bobl ifanc yn eu harddegau?

Pa benawdau:

- Sy'n cyffredinoli ormod gan ddweud pethau amdanynt sy'n wir am rai, ond sydd ddim yn wir am bob un neu am y rhan fwyaf o'r unigolion o fewn y grŵp hwnnw?
- Allai wneud i rywun ofni neu deimlo'n ansicr am y grŵp hwnnw?
- Allai wneud i rywun ddewis peidio dod i adnabod aelod o'r grŵp hwnnw?
- Allai wneud i rywun feddwl nad oes gan y grŵp yma unrhyw beth i'w gynnig i'n cymdeithas?

Gofynnwch i'ch myfyrwyr ganfod y geiriau sy'n cryfhau'r ystyr neu sy'n 'llwythog' ag ystyr er mwyn ychwanegu at ragfarn y penawdau.

Gofynnwch i'r myfyrwyr:

- Ydych chi'n gweld pobl ifanc fel chi neu eich cyfeillion yn y cyfryngau?
- Sut mae'r cyfryngau'n effeithio ar agwedd eich rhieni neu agweddau oedolion eraill rydych yn eu hadnabod?

Ar ôl trafod eu hymatebion cyntaf i'r wybodaeth yma mae'n rhaid i'r bobl ifanc benderfynu sut y gallent newid y sefyllfa yma. Tra bydd y bobl ifanc yn rhoi eu hadborth, gallai'r athro dosbarth gofnodi'r awgrymiadau am ffyrdd posibl o weithredu'n bositif i wella'r sefyllfa yma. (Gallent gadw'r cofnod yma i'w gymharu gyda'r gwaith sy'n ymwneud â chymunedau Mwslimaidd.)

Gallech rannu'r wybodaeth ddilynol o arolwg diweddar yn y cyfryngau gyda'r myfyrwyr mewn grwpiau o bedwar. Gallech roi cerdyn i bob myfyriwr i'w ddarllen allan i aelodau eraill eu grŵp.

NID YW 9 O BOB 10 O STRAEON AM BOBL IFANC YN NODI BETH SYDD GAN Y BOBL IFANC I'W DDWEUD.	DIM OND 22.7% O'R STRAEON YN Y CYFRYNGAU CENEDLAETHOL SY'N BOSITIF/FFAFRIOL.
MAE 87.5% O GLIPIAU A DDARLLEDWYD YN Y CYFRYNGAU'N ANFFAFRIOL AM BOBL IFANC.	ROEDD 3 O BOB 4 STORI AM BOBL IFANC YN Y CYFRYNGAU'N NEGYDDOL.

Ffynhonnell: Arolwg Gwybodaeth Am y Cyfryngau TNS 2007

TAFLEN WEITHGAREDD 'PENAWDAU NEWYDDION 1: POBL YN EU HARDDEGAU'

Y TRI CHYTHRAUL:

Damien, Daniel a Darren, o Dartford... y mae'r llys wedi dinistrio eu henwau da am BYTH Daily Express 27/11/02

Y MYGWYR IFAINC BARUS Daily Express 11/01/03

DAN GLO, MERCH FFIAIDD 12:

OED A ARESTIWYD 40 O WEITHIAU Daily Mail 21/01/03

CREULON: POBL ANIFEILAIDD 16 OED, YN LLOFRUDDIO CYFAILL AM GYFADDEF EU BOD YN DWYN Daily Mirror 17/01/03

'PLANT SY'N BAROD I DDWYN UNRHYW BETH I GAEL CYFFURIAU' Daily Telegraph 02/11/02

'PLANT UFFERN' YN CAEL EU GWAHARDD AM OES The Times 27/11/02

ADRAN DAU: Mwslimiaid

Gofynnwch i'ch myfyrwyr:

- Pan glywch neu gwelwch straeon am Fwslimiaid yn y newyddion, pa fathau o straeon ydyn nhw?
- Yr athro/athrawes i gael sesiwn o daflu syniadau am y stereoteip 'Mwslimiaid' gyda'r myfyrwyr. Y myfyrwyr i gael eu hannog i ystyried 'beth mae'r papurau'n ei ddweud'.

Ewch drwy'r daflen weithgaredd '**Penawdau Newyddion 2: Mwslimiaid**' gyda'r myfyrwyr. O ddarllen y penawdau, a all y myfyrwyr ganfod pa argraff mae'r penawdau hyn yn ei rhoi o Fwslimiaid?

TAFLEN WEITHGAREDD 'PENAWDAU NEWYDDION 2: MWSLIMIAID'

MWSLIMIAID YN PENDERFYNU SUT Y DYLEM REDEG EIN HYSGOLION
DAILY EXPRESS 21/02/07

SIOC AM GIPIO MADDIE GAN FWSLIMIAID ATGAS DAILY STAR 28/04/08

MOCH YN HEDFAN: NAWR MAE CEFNOGWYR CYWIRDEB GWLEIDYDDOL YN GWAHARDD Y CADW-MI-GEI SIÂP

MOCHYN RHAG OFN I'R MWSLIMIAID GWYNO DAILY EXPRESS 24/10/05

EWCH O'R BWS, RHAID I MI WEDDÏO THE SUN 28/03/08

NAWR MAE GAN Y MWSLIMIAID EU CYFREITHIAU EU HUNAIN YM MHRYDAIN DAILY EXPRESS 30/04/07

AGENDA O GASINEB MEWN MOSGIAU YN Y DU DAILY MAIL 30/10/2007

DICTER WRTH I FWSLIM ALW PRYDAIN YN 'NATSÏAIDD'
DAILY EXPRESS 11/11/07

RHAID I NI ROI'R GORAU I ADEILADU MOSGIAU AR UNWAITH
THE STAR 02/04/2008

PRYDAIN FWSLIMAIDD YN DATBLYGU'N ARDAL FAWR NA ALL NEB FYND IDDI THE TIMES 13/01/2008

NADOLIG WEDI'I WAHARDD AM NAD YW'R MWSLIMIAID YN CYTUNO AG O DAILY EXPRESS 02/11/2005

Pa benawdau:

- Sy'n cyffredinoli ormod gan ddweud pethau amdanynt sy'n wir am rai, ond sydd ddim yn wir am bob un neu am y rhan fwyaf o'r unigolion o fewn y grŵp hwnnw?
- Allai wneud i rywun ofni neu deimlo'n ansicr am y grŵp hwnnw?
- Allai wneud i rywun ddewis peidio dod i adnabod aelod o'r grŵp hwnnw?
- Allai wneud i rywun feddwl nad oes gan y grŵp yma unrhyw beth i'w gynnig i'n cymdeithas?

Gofynnwch i'ch myfyrwyr ganfod y geiriau sy'n cryfhau'r ystyr neu sy'n 'llwythog' ag ystyr er mwyn ychwanegu at ragfarn y penawdau.

Gallai'r myfyrwyr archwilio'r ystod o agweddau y byddai'r penawdau papur newydd yma'n debyg o'u meithrin a rhestru pa fythau sy'n cael eu creu yn y cyfryngau am Fwslimiaid.

Efallai y bydd y ffeithiau dilynol o gymorth:

Mae 36% o'r holl benawdau yn y cyfryngau sy'n sôn am Fwslimiaid Prydeinig yn ymwneud â therfysgaeth	**Yr ansoddeiriau mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd oedd radical, penboeth, ffwndamentalydd, eithafwr a milwriaethus**
Yr enwau mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd mewn perthynas â Mwslimiaid Prydeinig oedd terfysgwr, eithafwr, Islamydd, bomiwr hunanleiddiol a milwriaethus, gydag ychydig iawn o enwau positif (megis 'ysgolhaig')	**Ceir 17 cyfeiriad at Fwslimiaid radical am bob un cyfeiriad at Fwslimiaid cymedrol**

Ffynhonnell: Ysgol Newyddiaduraeth ac Astudiaethau Cyfryngol Caerdydd

Mae nifer o'r penawdau am Fwslimiaid yn gamarweiniol, yn anghywir ac yn gelwyddog. Er enghraifft:

SIOC AM GIPIO MADDIE GAN FWSLIMIAID ATGAS. Daily Star 28 Ebrill 2008 – Dydy hyn ddim yn cyfeirio at stori am Fwslimiaid yn chwarae rhan yn niflaniad Madeleine McCann. Yn hytrach, mae'n cyfeirio at wefan lle cafwyd honiadau bod rhieni Madeleine wedi cyfranogi yn niflaniad eu merch, honiad a gafwyd yn barod mewn nifer o'r prif bapurau newydd.

EWCH O'R BWS, RHAID I MI WEDDÏO. The Sun 28 Mawrth 2008 – Honnodd The Sun bod y gyrrwr wedi gorchymyn i bobl fynd oddi ar ei fws er mwyn iddo gael gweddïo. Mewn gwirionedd, roedd gyrrwr y bws wedi derbyn cyfarwyddiadau i stopio ei fws a dweud wrth y teithwyr am fynd ar y bws nesaf er mwyn cadw digon o fysiau'n rhedeg am fod y bws yn hwyr. Dywedwyd wrtho am beidio gadael unrhyw deithwyr ar ei fws ef ac roedd wrthi'n cael egwyl o 10 munud felly roedd perffaith ryddid iddo wneud fel y dymunai.

MOCH YN HEDFAN: NAWR MAE CEFNOGWYR CYWIRDEB GWLEIDYDDOL YN GWAHARDD Y CADW-MI-GEI SIÂP MOCHYN RHAG OFN I'R MWSLIMIAID GWYNO. Daily Express 24 Hydref 2005 – Mae'r stori yma'n hollol gelwyddog a chafodd ei gwadu'n gyfan gwbl gan y banciau a enwyd yn yr erthygl. Un ohonynt oedd y Nat West sy'n dal i ddefnyddio'r cadw-mi-gei siâp mochyn mewn nifer o'i erthyglau.

Gofynnwch i'r bobl ifanc ystyried pam fo papurau newydd yn barod i greu, gor-ddweud ac argraffu straeon celwyddog, negyddol am Fwslimiaid.

Ar ôl iddynt restru'r mythau, efallai y byddai hwn yn gyfle i'w harchwilio a defnyddio defnyddiau eraill yn y pecyn dysgu yma i chwalu stereoteipiau negyddol a darparu gwybodaeth fanwl gywir.

Edrychwch eto ar y rhestr o awgrymiadau positif ar gyfer chwalu portreadau negyddol yn y cyfryngau. Allai myfyrwyr wneud unrhyw beth i chwalu'r portread negyddol yma a'i effeithiau?

Chwalu Mythau'r Cyfryngau

1. Dysgwch eich ffeithiau chwalu mythau
2. Byddwch yn barod i herio'r mythau a glywch yn y cyfryngau
3. Cofiwch, allwch chi ddim cyffredinoli ormod am grwpiau o bobl: mae pobl yn unigolion
4. Heriwch y cyfryngau – ysgrifennwch at eich papur newydd
5. Newidiwch eich rhaglen neu bapur newyddion!

Efallai y byddai'n ddefnyddiol cychwyn trafodaeth gyda'r dosbarth am fathau newydd o gyfryngau a'u hannog nhw i ystyried pa mor wir yw'r erthyglau a'r straeon y maent yn eu darllen ar y Rhyngrwyd. Gall unrhyw un – sydd ag unrhyw agenda – roi gwybodaeth ar y Rhyngrwyd heb wneud unrhyw wiriadau a heb gydbwyso'r ffeithiau i weld pa mor wir / ffals / rhagfarnllyd / teg ydyn nhw.

GWEITHGAREDD YMHELAETHU

Y myfyrwyr i ysgrifennu erthygl bapur newydd bositif am bobl sy'n Fwslimiaid

Canlyniadau Dysgu

- Deall dylanwad y cyfryngau ar y syniad sydd gan gymdeithas o gymunedau Mwslimaidd / bobl ifanc
- Deall sut mae rhagfarn y cyfryngau'n gallu creu disgrifiadau negyddol o gymunedau Mwslimaidd / bobl ifanc
- Dod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng syniadau pobl am gymunedau Mwslimaidd / pobl ifanc a'r hyn sy'n wir mewn gwirionedd
- Dod yn ymwybodol o beryglon cael syniad anghywir am bobl sy'n ymddangos fel pe baent o ffydd benodol.

GWEITHGAREDD 3: TERFYSGAETH A'R CYFRYNGAU (20 MUNUD)

Mae pobl wedi cysylltu'r cynnydd mewn Islamoffobia gyda gwleidyddiaeth ryngwladol ac yn arbennig gyda'r ffaith fod pobl yn ofni terfysgaeth fwy a mwy. Maen nhw wedi cysylltu'r derfysgaeth yma gyda chrefydd Islam. Mae rhai digwyddiadau penodol, y mae rhai ohonynt wedi'u rhestru isod, ac – yn hanfodol bwysig – ymateb y cyfryngau a'r gwleidyddwyr iddynt, wedi creu cysylltiad ym meddwl y cyhoedd rhwng Mwslimiaid a therfysgaeth. Mae hyn wedi gwneud llawer o bobl yn ofnus o'r cymunedau Mwslimaidd. Mae'r ofn yma wedi ei gwneud hi'n gyfreithlon i dargedu Mwslimiaid mewn ymgyrchoedd stopio a chwilio a dal Mwslimiaid yn y carchar am gyfnodau hirion heb eu cyhuddo o unrhyw beth. Mae rhai sylwebyddion yn y cyfryngau wedi mynd mor bell ag awgrymu y dylid atal Mwslimiaid rhag dod i mewn i'r wlad. Ond, mewn gwirionedd mae data o'r Adroddiad am Sefyllfa a Thueddiadau Terfysgaeth gan yr Undeb Ewropeaidd yn 2007 i Europol (Sefydliad Gorfodi Cyfraith Ewrop), yn dangos bod 498 o ymosodiadau terfysgol wedi'u riportio ledled Ewrop yn 2006, a dim ond un o'r rhain a weithredwyd gan Fwslim.

MEDI 11EG 2001: hedfanodd terfysgwyr mewn awyrennau i mewn i ddau dŵr y ganolfan fasnach genedlaethol yn Efrog Newydd gan ladd miloedd o bobl.

GORFFENNAF 7FED 2005: lladdwyd 55 o bobl ac anafwyd cannoedd ar Reilffordd Danddaearol Llundain pan ffrwydrwyd bomiau gan derfysgwyr oedd yn cario'r bomiau mewn sachau teithio.

MEHEFIN 30AIN 2007: gyrrwyd jîp i mewn i faes awyr Glasgow gan derfysgwyr, ond yn ffodus ni achoswyd anaf difrifol i unrhyw aelod o'r cyhoedd.

Darllenwch yr wybodaeth ddilynol i'r bobl ifanc:

"Ym mis Gorffennaf 2008, cafodd terfysgwr yn Nwyrain Swydd Efrog ei garcharu am 16 mlynedd. Daeth yr heddlu o hyd i bedwar bom hoelion, bwledi, cleddyfau, bwyeill a chyllyll yn ei fflat. Mewn nodyn roedd wedi ysgrifennu, "Dw i wedi cael digon o glywed pobl yn siarad am ladd a thalu'r pwyth yn ôl ac yna'n methu gweithredu. Mae'n hen bryd rhoi taw ar y siarad a dechrau gwneud rhywbeth."

Gofynnwch i'r bobl ifanc sut mae hyn yn gwneud iddynt deimlo: ydyn nhw'n meddwl bod gwybodaeth fel yma'n cyfiawnhau agwedd pobl a'r ffordd o drin Mwslimiaid sydd wedi'i disgrifio uchod?

Nawr darllenwch yr wybodaeth sy'n rhoi'r ffeithiau i gyd i'r grŵp:

"Ym mis Gorffennaf 2008, cafodd Martyn Gilleard, dyn o Ddwyrain Swydd Efrog sy'n cefnogi Natsïaeth, ei garcharu am 16 mlynedd. Daeth yr heddlu o hyd i bedwar bom hoelion, bwledi, cleddyfau, bwyeill a chyllyll yn ei fflat. Roedd Gilleard wedi bod yn paratoi ar gyfer rhyfel yn erbyn y Mwslimiaid. Mewn nodyn yn ei fflat roedd wedi ysgrifennu, "Dw i wedi cael digon o glywed pobl genedlaetholgar yn siarad am ladd Mwslimiaid, ffrwydro mosgiau a thalu'r pwyth yn ôl ac yna'n methu gweithredu. Mae'n hen bryd rhoi taw ar y siarad a dechrau gwneud rhywbeth."

Sut maen nhw'n teimlo nawr? Ydyn nhw'n teimlo bod Martyn Gilleard yn gweithredu ar ran cymuned? Bod y mwyafrif o aelodau eraill ei gymuned yn cytuno ag ef? A ddylai pobl eraill gael eu trin yn ddrwg oherwydd yr hyn mae ef wedi'i wneud?

Ychydig iawn o sylw gafodd hyn yn y wasg. Ydy'r bobl ifanc yn teimlo y byddai'r digwyddiad wedi derbyn mwy o sylw os byddai Martin wedi bod yn eithafwr Mwslimaidd, yn hytrach nag eithafwr adain dde?

GWEITHGAREDD 4: TERFYSGAETH YN EI CHYD-DESTUN HANESYDDOL (30 MUNUD)

Pwrpas terfysgaeth yw creu ofn ymhlith pobl. Ei ystyr yw defnyddio a bygwth trais i gael effaith seicolegol ar gymdeithas, er mwyn ceisio cyflawni amcanion gwleidyddol. Yn aml iawn mae terfysgwyr yn creu cysylltiad â symbolau cenedlaethol ac yn ymosod ar sifiliaid yn bwrpasol i gynyddu faint o gyhoeddusrwydd a lefel o ofn y maent yn ei gynhyrchu. Dydy terfysgaeth ddim yn ffenomenon newydd ac mae esiamplau lu drwy gydol hanes y byd. Trwy ystyried yr esiampl isod gyda dosbarth gallwch sicrhau bod myfyrwyr yn dod i ddeall mwy am y syniad a thrwy ei roi mewn cyd-destun hanesyddol gallwch ddangos nad Mwslimiaid yw'r grŵp cyntaf o bobl – ac nid nhw fydd yr olaf chwaith – i gael eu hofni a'u gosod ar wahân oherwydd ymddygiad nifer fechan o droseddwyr sy'n ymddangos fel pe baent yn gweithredu yn eu henw.

Cynllwyn y Powdwr Gwn

Ar Dachwedd 5, 1605 ceisiodd grŵp dan arweiniad Guy Fawkes ddinistrio Senedd Lloegr drwy ffrwydro nifer fawr o bowdwr gwn oedd wedi'i osod yn gyfrinachol o dan yr adeilad. Y cynllwyn oedd lladd y Brenin James I ac aelodau'r ddau dŷ Seneddol. Yn yr anhrefn fyddai wedi dilyn hyn, roedd y cynllwynwyr yn bwriadu cychwyn chwyldro ac adfer y ffydd Gatholig ym Mhrydain. Fodd bynnag, cafodd y cynllun ei fradychu ac yna ei rwystro. Rydym yn dal i ddathlu'r digwyddiad bob blwyddyn ym Mhrydain gyda thân gwyllt a choelcerthi mawrion ar 5 Tachwedd.

Hanes Diweddar: Gogledd Iwerddon

Dioddefodd Gogledd Iwerddon gyfnod o wrthdaro o ddiwedd yr 1960au hyd ddiwedd y broses heddwch yn hwyr yn yr 1990au. Ond parhaodd y trais ar ôl y dyddiad yma ac mae'n dal i barhau heddiw yn achlysurol ac ar raddfa fechan.

'Y Cynnwrf' oedd enw pobl ar y gwrthdaro a chafwyd gweithredoedd treisgar iawn rhwng elfennau o gymuned genedlaetholgar Gogledd Iwerddon (yn Gatholig gan fwyaf) a'r gymuned unoliaethwyr (Protestannaidd gan fwyaf). Cafodd y gwrthdaro ei achosi gan wrthwynebiad cenedlaetholgar i gynnwys Gogledd Iwerddon yn rhan o'r Deyrnas Unedig a'r ffaith fod y mwyafrif o unoliaethwyr yn dominyddu ar, ac yn gwahaniaethu yn erbyn y gymuned genedlaetholgar leiafrifol. Yr elfennau amlwg yn y trais oedd ymgyrchoedd arfog y grwpiau parafilwrol, gan gynnwys ymgyrch yr IRA Dros Dro o 1969 hyd 1997. Roedd yr IRA yn ceisio dod â statws Gogledd Iwerddon i ben o fewn y Deyrnas Unedig a chreu Iwerddon Unedig drwy rym arfau a pherswâd gwleidyddol. Yn ystod yr 1970au, 80au a'r 90au, rhedodd yr IRA ymgyrch o ymosodiadau terfysgol yng Ngogledd Iwerddon, Llundain a gweddill y DU. Yn ystod y cynnwrf, lladdwyd 3,523 o bobl ac roedd 1,855 o'r rhain yn sifiliaid.

Yn 1998, cytunwyd ar ddiwedd i'r ffrwydro ac adferwyd hunanlywodraeth i Ogledd Iwerddon gan 'Gytundeb Belfast' ar sail rhannu pŵer. Ar 28 Gorffennaf 2005, datganodd Cyngor Byddin yr IRA ddiwedd i'w ymgyrch arfog, gan nodi y byddai'n gweithio i gyflawni ei amcanion gan ddefnyddio "rhaglenni hollol wleidyddol a democrataidd drwy ddulliau heddychlon yn unig" ac "Na chaiff gwirfoddolwyr [yr IRA] ymwneud ag unrhyw weithgareddau eraill o unrhyw fath".

Roedd ymgyrch yr IRA yn hynod lwyddiannus o ran creu ofn a chafodd hyn effaith ar y Gwyddelod a phobl y tybiwyd eu bod yn Wyddelod oedd yn byw ar dir mawr Prydain ar y pryd. Yn aml iawn ni fyddai pobl yn cael gwybod am ymosodiadau ar Wyddelod, byddai Gwyddelod yn cael eu stopio a'u holi mewn meysydd awyr neu borthladdoedd yn rheolaidd; byddai'r heddlu'n chwilio eu tai; byddent yn cael eu dal am gyfnodau amrywiol, o ychydig oriau i saith niwrnod, ac yna'u rhyddhau heb gyhuddiad. Cadwyd 7,052 o bobl dan y Ddeddf Atal Terfysgaeth rhwng 1974 a 1991; o'r rheiny, cafodd 86 eu rhyddhau heb gyhuddiad.

Materion i'w trafod

- Sut mae hyn yn cymharu gyda'r driniaeth a roddir i Fwslimiaid ym Mhrydain heddiw?
- Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n rhesymol i gymuned gael ei thargedu fel yma?
- Pa effeithiau gaiff hyn ar y gymuned yn eich barn chi?

Materion i'w trafod

- Ydych chi'n meddwl bod yr heddlu dan bwysau tebyg i arestio pobl y drwgdybir eu bod yn derfysgwyr heddiw?

Erbyn hyn, mae caniatâd i'r heddlu ddal pobl y maen nhw'n drwgdybio eu bod yn derfysgwyr am 28 diwrnod heb eu cyhuddo ac mae'r llywodraeth yn ceisio ymestyn hyn i 42 diwrnod (6 wythnos). Rhwng Medi 11 2001 a Mehefin 2004, cafwyd 609 o arestiadau dan y ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth. O'r 609 o bobl a arestiwyd, cafodd 99 eu cyhuddo a dim ond 15 a gafwyd yn euog o droseddau gwrthderfysgaeth.

ASTUDIAETH ACHOS

Cafwyd ffrwydradau mwn tafarndai yn Guildford ar 5 Hydref 1974. Plannodd yr IRA fomiau yn nhafarn yr Horse and Groom ar North Street, Guildford, a thafarn y Seven Stars gerllaw. Lladdwyd pump o bobl ac anafwyd 65 yn ddifrifol. Digwyddodd y bomio yma ar uchafbwynt y 'Cynnwrf' yng Ngogledd Iwerddon. Roedd Heddlu Llundain dan bwysau enfawr i ddal bomwyr yr IRA. Ym mis Rhagfyr 1974, arestiodd yr heddlu dri dyn a merch, a enwyd yn ddiweddarach yn 'The Guildford Four': Gerry Conlon, Paul Hill, Patrick Armstrong a Carole Richardson. Fe'u cafwyd yn euog ar gam o drefnu'r bomio yma ym mis Hydref 1975 a chawsent eu cadw yn y carchar am bymtheg mlynedd. Yn ystod yr amser hwnnw bu farw tad Gerry Conlon, Patrick 'Guiseppe' Conlon yn y carchar. Yn ddiweddarach cafodd eu dedfrydau eu dileu yn llys yr apêl pan brofwyd bod y dedfrydau wedi'u seilio ar y cyfaddefiad a roddodd y pedwar wrth iddynt gael eu harteithio. Hefyd, roedd tystiolaeth ar gael ar y pryd i brofi nad nhw wnaeth y drosedd, ond nid oedd yr heddlu wedi rhyddhau'r wybodaeth yma.

Materion i'w trafod

- Dychmygwch eich bod wedi cael eich arestio a'ch dal am fis heb eich dedfrydu cyn i chi gael eich rhyddhau. Sut fyddai hynny'n effeithio ar eich bywyd?
- Ydych chi'n meddwl y dylai'r amser gael ei ymestyn i 6 wythnos?

ASTUDIAETH ACHOS

Roedd Harry Stanley yn beintiwr ac addurnwr o'r Alban. Cafodd ei saethu'n farw gan yr heddlu ar 22ain Medi 1999. Roedd yn dod adref o Dafarn yr Alexandra yn Ne Hackney yn cario, mewn bag plastig, goes bwrdd roedd ei frawd wedi'i thrwsio yn gynharach y diwrnod hwnnw. Cafodd ei weld yn y dafarn gyda'r goes bwrdd a chamgymrodd rhywun ei acen Albanaidd am acen Wyddelig. Ffoniodd y person yma'r heddlu a sôn am y "Gwyddel gyda gwn wedi'i lapio mewn bag". Ganllath o'i dŷ, daeth heddlu arfog i gyfarfod Mr Stanley a gweiddi "Stop, Heddlu Arfog" a gofynnwyd iddo godi ei freichiau uwch ei ben. Am ei fod wedi gadael yr ysbyty'n ddiweddar ar ôl dioddef o ganser y coluddyn, doedd o ddim yn gallu gwneud hyn a gafaelodd yn dynn yn ei fag. Roedd yr heddlu'n meddwl ei fod am eu saethu felly saethodd un o'r swyddogion ei wn gan anafu Mr Stanley'n farwol.

Materion i'w trafod

- Pa dybiaethau roedd pobl wedi'u gwneud yn yr achos hwn?
- Ydych chi'n meddwl y byddai pobl yn gwneud yr un tybiaethau os byddai Mr Stanley wedi gwneud yr un peth heddiw?
- Beth petai'n ddyn Asiaidd yn cario sach deithio?
- Cymharwch y digwyddiad yma gyda saethu Jean Charles de Menezes yn 2005.

3. BYWYD FEL MWSLIM

ER NAD PWRPAS Y DVD YMA YW DARPARU ADDYSG AM Y FFYDD FWSLIMAIDD, MAE'N DDEFNYDDIOL I BOBL IFANC GAEL CIPOLWG AR Y BYWYDAU Y MAE DILYNWYR Y GREFYDD YN EU BYW, A GWELD ASTUDIAETHAU ACHOS SY'N WAHANOL EFALLAI I'R DDELWEDD O FWSLIMIAID A WELWN YN AML MEWN ADRANNAU ARBENNIG O'R WASG.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **PERSON IFANC:** Mae pobl yn meddwl ein bod yn eistedd yn y tŷ drwy'r amser yn gweddïo, ond rydym fel nhw hefyd – rydym yn gwneud y pethau maen nhw'n eu gwneud, ond nid popeth maen nhw'n eu gwneud.
- **FREDERIC KANOUTE:** Mae Ramadan yn eich dysgu [i fod] yn amyneddgar, gwneud ymdrech a bod yn ddisgybledig, felly mae'n eich helpu yn eich bywyd yn ogystal ag mewn pêl-droed wrth gwrs.
- **PERSON IFANC:** Mae Islam yn dysgu heddwch [...] a'r terfysgwyr, dydw i ddim yn meddwl eu bod yn Fwslimiaid – maen nhw'n eu galw eu hunain yn Fwslemiaid ond dydyn nhw ddim yn rhai.
- **PERSON IFANC:** Gall unrhyw un fod yn Fwslim, dim ots pa liw ydych chi, eich ffydd yw'r peth pwysig a'r hyn yr ydych yn credu ynddo.
- **PERSON IFANC:** Does neb yn cael eu gorfodi i wisgo sgarff pen, eich dewis chi yw hynny. Dydw i ddim yn gwisgo sgarff pen [felly] mae pobl yn meddwl fy mod i o grefydd wahanol ond na, rydw i o Islam.

Materion i'w trafod

- Pa wahaniaethau sydd rhwng y bobl Fwslimaidd sydd wedi siarad ar y ffilm yma?
- Oedden nhw i gyd yn edrych / siarad / addoli yn yr un ffordd?
  DS: Tynnwch sylw at y ffaith nad yw Cristnogaeth yn grŵp unffurf a bod gan bobl wahanol ffyrdd o ddehongli ac arfer eu credoau o fewn crefyddau.
- Ydych chi wedi gweld unrhyw beth ar y ffilm yma nad oeddech chi'n ei wybod am grefydd Islam?
- Beth yw'r ffordd orau o ddysgu am bobl eraill?
- Ai ffydd grefyddol yw'r brif ffordd sydd gennym o ddiffinio pobl?
  - Pa ffactorau eraill sy'n creu hunaniaeth rhywun?

GWEITHGAREDD 1: ARCHWILIO HUNANIAETH (15 MUNUD)

Y syniad sy'n sail i'r gweithgaredd yma yw bod y person ifanc yn dod i ddeall bod gennym oll hunaniaethau cymhleth ac na allwn gael ein diffinio gan un nodwedd yn unig.

Gofynnwch i'r bobl ifanc sefyll mewn cylch. Dywedwch wrthynt eich bod yn mynd i ddisgrifio rhywbeth amdanynt a bod angen iddynt ffurfio grŵp gyda'r bobl sydd yn yr un sefyllfa â nhw.

Er enghraifft, ffurfiwch grŵp gyda phobl sydd:

- o'r un rhyw
- â'r un nifer o frodyr a chwiorydd
- â'r un hoff anifail anwes
- â'r un lliw gwallt
- yn yr un safle yn y teulu
- yn cefnogi yr un tîm pêl-droed
- â phen-blwydd yn yr un mis
- â'r un hoff fwyd

Gallai fod yn ddefnyddiol stopio'r gweithgaredd a thrafod y grwpiau rhwng bob datganiad. Ar ddiwedd y gweithgaredd, gofynnwch i'r bobl ifanc a oedden nhw mewn grwpiau gyda'r un bobl ar gyfer pob datganiad. Oedden nhw wedi synnu pa bobl oedd yn y grwpiau gyda nhw? Oedd ganddyn nhw fwy neu lai yn gyffredin gyda rhai pobl benodol nag roedden nhw wedi'i feddwl cynt? Dylai hyn dynnu eu sylw at y ffaith fod gennym oll nifer o wahanol hunaniaethau ac na allwn gael ein diffinio'n syml ac mae hyn yn arwain yn effeithiol at y gweithgaredd nesaf.

GWEITHGAREDD 2: AMIR KHAN – MWSLIM PRYDEINIG (45 MUNUD)

Daeth Amir Khan yn arwr cenedlaethol pan oedd yn 17 oed drwy ennill medal arian i Brydain mewn bocsio yng Ngemau Olympaidd 2004. Mae hefyd yn Fwslim sy'n arfer ei ffydd.

Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen y stori a chwblhau'r daflen waith sydd wedi'i darparu, naill ai mewn ystafell dechnoleg gwybodaeth neu fel gweithgaredd gwaith cartref er mwyn iddynt allu ymchwilio ar y we i ddod o hyd i'r atebion sydd heb eu darparu yn yr erthygl.

ERTHYGL BAPUR NEWYDD A GYMERWYD O'R OBSERVER, DYDD SUL CHWEFROR 5ED 2006:

TRI BYWYD – UN HUNANIAETH

Mae'r awdur a'r academydd Ziauddin Sardar yn canmol y bachgen sydd wedi chwalu rhwystrau a rhagdybiaethau.

Mae Amir Khan yn ddyn ifanc diymhongar a hawdd cymryd ato sydd â thalent enfawr. Ond roedd angen llawer mwy na hynny i'w wthio i'r entrychion fel seren newydd. Enillodd y fedal arian fel unig gynrychiolydd bocsio Prydain yng Ngemau Olympaidd Athen, ac eto mae wedi cael mwy o effaith ar feddwl y cyhoedd na llawer o enillwyr y fedal aur.

Cafodd ei eni mewn rhan ddirwasgedig o Bolton. Mae llawer o'r bobl Asiaidd a aned ac a fagwyd yn hen drefi melinau gogledd Lloegr yn tueddu bod yn gyffredinol anfodlon eu byd a chafwyd terfysgoedd yno yn y gorffennol. Roedd Khan yn blentyn goractif a byddai'n aml yn un o'r bechgyn oedd yn paffio ar fuarth yr ysgol. Cafodd ei gymryd i'r clwb bocsio gan ei dad, Shajaad Khan, oedd yn werthwr metel sgrap a ddaeth i Brydain yn 1970 o Rawalpindi. Cafodd Khan ei helpu gan y clwb bocsio i sianelu ei ynni i fyd chwaraeon ac oddi wrth y trafferthion.

Mae Amir wedi aros yn boblogaidd ar ôl troi'n broffesiynol ac mae'n dod â phobl Asiaidd newydd i mewn i fyd bocsio, yn ogystal â chefnogwyr newydd. Mae wedi llwyddo i wneud hyn oll am ei fod yn hapus yn ei groen ei hun a gyda'r byd o'i gwmpas. Mae'n dangos i ni mor naturiol yw bod yn Fwslim Prydeinig-Bacistanaidd ac yn llwyddiannus ac enwog.

Mae'r teulu Khan yn deulu Mwslimaidd Prydeinig-Bacistanaidd sydd hefyd yn 'halen y ddaear' o Swydd Gaerhirfryn. Nhw yw'r cyfuniad newydd perffaith, yr union gyfuniad yr ydym ei angen. Maen nhw mor normal – mae eu synnwyr cyffredin call yn golygu eu bod yn naturiol gartrefol gyda'u hunaniaethau cymysg. Mae'r tad, a wisgodd wasgod baner yr Undeb yn Athen, yn falch iawn o'i fab ac yn llawn hynawsedd. Mae'r fam, yn ei swrwâl camîrs *[salwar kameez]* a dwpata, yn bersonoliad go iawn o draddodiad Pacistanaidd. Mae'r brawd a'r chwiorydd, fel Amir ei hun, yn rhai o Brydeinwyr-Pacistanaidd-Mwslimaidd hyderus y 21ain ganrif. Maen nhw'n profi bod mwy nag un o'r mowld newydd yma i'w cael.

Mae pobl yn tueddu i gysylltu pobl ifanc Pacistanaidd gyda phobl sy'n tangyflawni ac sydd â rhieni camweithredol yn aml iawn. Mae rhieni Khan yn rhoi darlun arall, mwy cywir, i ni. Gorfododd y ddau i Amir weithio'n galed, gyda'r bocsio ac yn yr ysgol: mae ganddo naw TGAU ac roedd yn bwriadu mynd i Brifysgol Loughborough cyn i'r gemau Olympaidd newid ei fywyd. I gefnogwyr bocsio, mae ei fuddugoliaethau a'i botensial yn wych.

Mae pob rhan o hunaniaeth gymysg Amir Khan i'w gweld yn ei focsio. Fel Mwslim, mae'n gweddïo cyn pob brwydr ac unwaith eto ar ôl mynd i mewn i'r cylch. Mae Khan yn cynrychioli Prydain. Mae ei rieni a'i gefnogwyr yn chwifio baner yr Undeb. Ond mae hefyd yn cydnabod ei etifeddiaeth Bacistanaidd: mae baner Pacistan i'w gweld yn amlwg hefyd. Mae'n cynrychioli rhywbeth ychwanegol sy'n gwneud Khan hyd yn oed yn fwy Prydeinig ei naws.

Mae baner Pacistan yn gwestiwn pwysig i Brydain fodern. Rydym yn ei hofni am nifer o resymau. Rydym yn teimlo bod codi'r faner hon yn bradychu'r genedl Brydeinig. Rydym yn meddwl am hyn yn nhermau rhannu teyrngarwch – bod y Prydeiniwr ifanc sy'n chwifio'r faner honno'n dangos mwy o deyrngarwch i Bacistan na gwlad ei enedigaeth. Ac rydym yn ystyried hyn yn arwydd o berson ifanc wedi'i ddieithrio. Mae Khan yn dangos fod hynny'n hollol anghywir.

Mae codi baner Pacistan yn y cyswllt yma'n gyfatebol â gweld cefnogwyr Colin Jackson yn chwifio'r Ddraig Goch neu Andrew Murray'n chwifio croes Sant Andrew: dim mwy a dim llai. Mae'n awgrymu nad ydym ni Brydeinwyr yn endid monolithig ond yn bobl cymhleth a chyfansawdd. Yr hyn y mae Amir Khan wedi'i gyflawni yw gwneud baner Pacistan yn wrthrych Prydeinig parchus. Mae wedi rhoi lle cyhoeddus i bob un o'r bobl ifanc Prydeinig hynny sy'n ystyried Pacistan yn wlad estron, ymhell iawn o'u profiadau nhw, ac yn bresenoldeb emosiynol cryf. Mae fel petai'n dweud eich bod yn gallu cysylltu gyda'ch cyndadau, ac eto fod yn gwbl Brydeinig. Gallwch siarad gyda thraddodiadau Pacistan a derbyn clust i wrando arnoch a chael eich deall fel Prydeiniwr modern. Mae hynny'n gyflawniad anferth.

Ar ôl y bomio ar 7 Gorffennaf y llynedd, mae Prydain wedi bod yn cadw llygad drwgdybus ar bobl sydd â hunaniaeth Fwslimaidd Prydeinig-Bacistanaidd. Mae pobl ifanc, yn arbennig, yn teimlo dan bwysau eithriadol: stopio a chwilio; deddfwriaeth gwrth-derfysgaeth; llygad amheus arnoch; y gymuned yn ddigon parod i leisio barn sy'n dangos eu hanwybodaeth ar unrhyw bwnc bron iawn; yr angen cyson i fod yn amddiffynnol; a'r dicter cyfiawn ynghylch gorfod ymddiheuro er nad ydych wedi gwneud unrhyw beth o'i le. Mae Amir Khan yn codi uwchben y materion yma ac, yn y broses, yn rhoi gobaith i bobl ifanc Pacistanaidd Brydeinig. Lle mae yntau'n arwain, mae eraill yn awyddus i ddilyn – nid mewn bocsio yn unig, ond hefyd mewn criced a hyd yn oed mewn pêl-droed.

Fel y dywedodd y sylwebyddion wrthym yn ystod y Gemau Olympaidd, ef yw 'ein bachgen' ni – arwr i Brydain gyfan, yn ei hamrywiaeth i gyd. Mae'n ein gwahodd i'n hystyried ein hunain, i ddod i adnabod ein hunain yn well. Ac mae'n cynnig rhywbeth i ni nad yw unrhyw bencampwr chwaraeon arall wedi'i gynnig erioed: cipolwg newydd ar hunaniaethau niferus a sut beth yw bod yn Fwslim, yn Brydeinig ac yn Bacistanaidd ar yr un pryd.

TAFLEN WAITH AMIR KHAN

O ble ddaeth teulu Amir Khan yn wreiddiol? Nodwch 2 ffaith ddiddorol am y lle yma:

O ble mae Amir Khan yn dod? Nodwch 2 ffaith ddiddorol am y lle yma:

Beth oedd Amir yn bwriadu ei wneud os na fyddai wedi llwyddo fel bocsiwr?

Beth wisgodd tad Amir ar gyfer y gystadleuaeth yn Athen?

Gwisgodd mam Amir 'Swrwâl Camîrs' *[Salwar Kameez]* a 'Dwpata'. Beth yw'r rhain?

Gyda beth mae'r awdur yn cymharu chwifio baner Pacistan? Allwch chi feddwl am unrhyw bobl Brydeinig eraill ym myd chwaraeon sydd â thadogaeth i wledydd eraill hefyd?

GWEITHGAREDD 3:
GORCHUDDION PEN (20 MUNUD)

Rhowch gopi o'r daflen luniau i'r bobl ifanc. Gofynnwch iddynt edrych ar y lluniau a phenderfynu am ba resymau y byddai'r bobl wedi dewis gorchuddio eu pennau – rhesymau diwylliannol, traddodiadol, ymarferol, diogelu ac ati.

Gofynnwch i'r bobl ifanc a oes ganddyn nhw unrhyw beth sy'n gorchuddio eu pennau? Pam maent yn ei wisgo?

- Mae'r merched ifainc ar y fideo'n sôn am gael eu herian a hyd yn oed fod pobl yn rhwygo'r sgarffiau oddi ar eu pennau. Sut fyddai'r bobl ifanc yn y dosbarth yn teimlo pe bai rhywun yn ymosod arnyn nhw fel hyn?
  - Allan nhw feddwl am unrhyw grwpiau eraill o bobl sy'n dioddef camdriniaeth oherwydd y dillad a wisgant?
  - Cyflwynwch drafodaeth am stereoteipiau, rhowch yr esiampl am y llywodraeth yn gwahardd pobl ifanc rhag gwisgo hwdis mewn rhai canolfannau siopa.
  - Ydy hyn yn deg? Sut fyddai'r bobl ifanc yn teimlo pe bai rhywun yn cyfyngu ar y dewis o ddillad sydd ganddyn nhw?
  - Oes gwahaniaeth rhwng Mwslim yn gwisgo sgarffiau pen a pherson ifanc yn gwisgo cap neu hwdi? A yw'r bobl ifanc yn dioddef camdriniaeth neu a oes rhywun yn tynnu eu hetiau neu eu hwdis oddi arnynt?
- Mae Lleianod yn gwisgo hîjab am resymau crefyddol a thraddodiadol yn yr un ffordd ag y mae rhai merched Mwslimaidd yn eu gwisgo. A yw'r bobl ifanc yn teimlo bod Lleianod yn cael eu gormesu?
  - Ym marn y bobl ifanc, sut fyddai cymdeithas yn ymateb pe bai rhywun yn ymosod ar Leian ac yn rhwygo ei gorchudd pen oddi arni?
  - Anogwch drafodaeth am yr elfennau tebyg a'r gwahaniaethau rhwng gwahanol orchuddion pen a'u pwrpas: gofynnwch pam fo pobl yn ymateb yn wahanol i fathau arbennig o orchudd pen.

GWEITHGAREDD 4:
STORI SHABINA (1 AWR)

Ewch i www.theredcard.org os gwelwch yn dda i gael gweithgaredd fydd yn caniatáu i'r myfyrwyr ddadlau yn erbyn ac o blaid gadael i fyfyrwyr wisgo gwisg Islamaidd llawn yn yr ysgol.

4. DANGOS Y CERDYN COCH I BOB HILIAETH

MAE ADRAN DERFYNOL Y FFILM YN RHOI CRYNODEB A LLWYFAN AR GYFER ANNOG POBL IFANC I GWESTIYNU RHAGFARN A BRWYDRO YN ERBYN ISLAMOFFOBIA.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **PERSON IFANC:** Os byddwch yn gweld rhywun yn bod yn hiliol, ddylech chi ddim anwybyddu'r sefyllfa na gwneud yr un peth, dylech sefyll yn gadarn ar ochr y person y mae'r rhagfarn yn ei erbyn
- **RIO FERDINAND:** Yn eich plentyndod dydych chi ddim yn gweld lliw a chrefydd mewn gwirionedd a [...] mae angen i'r ffordd rydych yn meddwl fel plentyn aros [gyda chi] drwy gydol eich bywyd
- **PERSON IFANC:** Unwaith y byddwch ar y cae chwarae does neb yn gofyn i chi ydych chi'n Fwslim neu'n Iddew, yn Hindŵ, du, gwyn, neu beth bynnag – dim ond chi sydd yno a'ch cyfeillion ar y tîm a'r ymdrech i ennill y gêm
- **PERSON IFANC:** Y peth pwysig yw ein bod ninnau'n gwybod bod hiliaeth yn anghywir – ni yw'r genhedlaeth nesaf felly ni yw'r rhai sy'n gallu newid pethau
- **PERSON IFANC:** Gallwch weithio gyda'ch gilydd ac addysgu'r bobl hynny sydd heb y ffeithiau i gyd

Materion i'w trafod

- Beth mae eich ysgol yn ei wneud i atal hiliaeth / Islamoffobia?
  - Ydy hyn yn ddigon?
- Ym mha feysydd o'ch bywyd, os oes rhai o gwbl, ydych chi'n dod i gysylltiad â phobl o wahanol grefyddau a chefndiroedd diwylliannol?
- Sut all pêl-droed helpu i gael gwared ag anoddefiad?

GWEITHGAREDD 1: BETH ALLECH CHI EI WNEUD I FRWYDRO YN ERBYN HILIAETH AC ISLAMOFFOBIA YN EICH YSGOL A'R GYMUNED EHANGACH? (25 MUNUD)

Trafodwch gopi o bolisi gwrth-hiliaeth yr ysgol gyda'r dosbarth: sylwch beth yw amcanion a nodau'r polisi, pam ei fod yn angenrheidiol ac a yw'r dosbarth yn meddwl ei fod yn ddigonol. Os nad, pa newidiadau sydd eu hangen?

- Naill ai mewn grwpiau llai neu fel dosbarth, ail-ddrafftiwch y polisi, gan wneud ychwanegiadau ac addasiadau
  - Gallai'r disgyblion gynnal cyfweliadau gyda disgyblion eraill ac aelodau o'r staff i ganfod pa brofiadau o hiliaeth sydd ganddyn nhw
- Trefnwch gyfarfod rhwng y disgyblion a'r rheolwyr uwch i gyflwyno'r polisi diwygiedig newydd a thrafodwch unrhyw bryderon sydd gan y disgyblion am yr un presennol
- Fel prosiect creadigol i wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r mater, gallai'r disgyblion roi cyhoeddusrwydd i'r polisi – neu agweddau ohono – o amgylch yr ysgol, ar bosteri, mewn cerddi a gwaith celf ac ar hysbysfyrddau
- Gallai disgyblion gysylltu â'r wasg leol i lunio stori am y gwaith maent wedi'i wneud, neu gallent ysgrifennu llythyrau at bapur lleol neu gylchgrawn yn tynnu sylw at yr achos a'u hymgyrch i frwydro yn erbyn Islamoffobia a hiliaeth

YMHELAETHU:

- Gan ddefnyddio'r holl adnoddau DCCiH a'r wybodaeth mae'r disgyblion wedi'i dysgu hyd yma, gwahoddwch y myfyrwyr i lunio gwasanaeth sydd â neges gwrth-hiliaeth bwerus ar gyfer yr holl grwpiau blwyddyn eraill. Os yw'n fwy ymarferol, gellid rhannu'r dosbarth yn grwpiau llai a gallai pob grŵp ddewis gwasanaeth blwyddyn i'w gynnal
  - Anogwch gymaint o greadigedd ag sy'n bosibl: gofynnwch i'r disgyblion pa wasanaethau y maent wedi'u mwynhau a pham – beth sy'n creu cyflwyniad da?
  - Gadewch i'r disgyblion ddefnyddio cymaint o offer a defnyddiau celf a chrefft ag sy'n bosibl. Dyma rai ffyrdd y gallent gyfleu eu neges: PowerPoint, defnyddio cerddoriaeth, cerddi, ffilm fer, adrannau o'r DVD DCCiH, rhyngweithio gyda'r gynulleidfa, cwis ac ati.

NODYN: Gallai rhywfaint o'r gwaith y mae'r disgyblion yn ei gynhyrchu fod yn addas ar gyfer cystadleuaeth genedlaethol i Ysgolion Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Gallwch weld manylion hon ar **www.theredcard.org**

GWEITHGAREDD 2: BETH ALLECH CHI EI WNEUD I DDATHLU AMRYWIAETH YN EICH YSGOL?

Dyma rai syniadau allai eich helpu i annog undod a chytgord ymysg disgyblion a hefyd eu gwneud yn fwy ymwybodol o wahanol wledydd, crefyddau a diwylliannau.

- Ewch ati i ddathlu amrywiaeth o wahanol wyliau diwylliannol, er enghraifft, Blwyddyn Newydd Tsieineaidd, Ramadan, Hanukkah.
- Gwahoddwch westeion arbennig (rhieni, aelodau o'r gymuned) i siarad am eu hetifeddiaeth, eu teulu a'u traddodiadau.
- Gallai myfyrwyr gynllunio baneri a phosteri i addurno'r ysgol, gallent ddewis baner gwlad y mae ganddyn nhw neu eu teulu gysylltiad â hi, gan dynnu sylw at amrywiaeth a chyfoeth cymuned yr ysgol, a safle'r myfyrwyr fel dinasyddion byd-eang.
- Cynhaliwch berfformiadau cerddorol/dawns/drama o wahanol wledydd a diwylliannau yn yr ysgol. Sefydlwch 'Glwb Diwylliant' lle gall disgyblion ddysgu am wahanol ddiwylliannau a dathlu'r amrywiaeth o fewn eu hysgol eu hunain: gallai hyn gynnwys gwersi iaith gan fyfyrwyr dwyieithog neu gefnogaeth gyda'r Saesneg i fyfyrwyr ESL.
- Cynhaliwch ddiwrnodau gyda thema lle mae cyfle i fyfyrwyr brofi llawer o bethau newydd o grefydd neu ddiwylliant arall ac adnabod cyfraniadau gan bobl o'r grefydd neu'r diwylliant hwnnw – defnyddiwch y myfyrwyr sy'n dod o'r diwylliant hwnnw fel eich arbenigwyr!

GWEITHGAREDDAU YMHELAETHU

GWEITHGAREDD 1: ARCHWILIO ARLOESIADAU MWSLIMAIDD (25 MUNUD)

Mae Islamoffobia'n gallu deillio o'r teimlad bod Mwslimiaid yn fygythiad i 'Ddiwylliant Prydain' ac nad ydynt wedi cyfrannu at y 'Ffordd Brydeinig o Fyw': dylai'r gweithgaredd yma annog y bobl ifanc i archwilio eu hetifeddiaeth yn agosach a sylweddoli bod gan nifer o'r pethau a gymerwn yn ganiataol wreiddiau yn y byd Islamaidd.

Gallwch ddefnyddio'r lluniau o arloesiadau Mwslimaidd isod, neu ddod â'r eitemau iawn i mewn i'w defnyddio yn yr ymarfer yma. Gosodwch y gwrthrychau o flaen y bobl ifanc a gofyn iddynt beth sy'n eu cysylltu i gyd. Unwaith y byddwch wedi esbonio eu bod oll wedi cyrraedd y Deyrnas Unedig o'r byd Islamaidd, gofynnwch i'r bobl ifanc geisio cyfateb y darnau gwybodaeth gyda'r eitemau cywir.

ATEBION:

1. Coffi, 2. Siampŵ, 3. Gwyddbwyll, 4. System Rifo, 5. Melinau Gwynt, 6. Siec, 7. Carpedi, 8. Llawfeddygaeth, 9. Gerddi, 10. Iaith



Ewch i **www.theredcard.org** i gael Adnoddau Addysgol ychwanegol a rhai wedi'u diweddaru

1 Cafodd hwn ei ddarganfod gan Fugail yn Ethiopia mwy na 1000 o flynyddoedd yn ôl. Sylwodd Châlid *[Khalid]* bod ei anifeiliaid yn mynd yn fwy bywiog ar ôl bwyta aeron o blanhigyn arbennig. Roedd eisiau gwybod a fyddai'r aeron yn cael yr un effaith ar bobl felly berwodd nhw gyda dŵr a siwgr ac yfed yr hylif.

2 Yr Arabiaid oedd y cyntaf i greu hwn drwy gyfuno olewau llysiau gyda sodiwm hydrocsid a defnyddiau aromatig megis olew teim. Cafodd ei gyflwyno ym Mhrydain gan Fwslim a agorodd Faddonau Anwedd Indiaidd Mahomed ar draeth Brighton yn 1759 a chafodd ei gyflogi i edrych ar ôl gwallt y Brenhinoedd George IV a William IV.

3 Datblygwyd fersiwn o hwn yn India hynafol, ond cafodd ei ddatblygu ym Mhersia i roi'r gêm rydym yn ei hadnabod heddiw. Yna lledaenodd i'r gorllewin a chafodd ei chyflwyno yn Ewrop gan y Mwriaid yn Sbaen yn y 10fed Ganrif.

4 Mae'n debyg mai o'r India'n wreiddiol y daeth y system rydym yn ei defnyddio heddiw drwy'r byd i gyd, ond mae cynllun y rhifau yn Arabaidd a daethant i Brydain o'r byd Arabaidd gyda'r mathemategwr Eidalaidd Fibonacci.

5 Cafodd y rhain eu dyfeisio yn y flwyddyn 634 ar gyfer Caliph Persiaidd a chawsent eu defnyddio i falu ŷd a chodi dŵr ar gyfer dyfrhau. Cafodd yr hwyliau eu creu o ffabrig neu ddail palmwydd 500 o flynyddoedd cyn i'r cyntaf ymddangos yn Ewrop.

6 Daw'r gair modern o'r Saqq Arabaidd, ac roedd yn llw ysgrifenedig i dalu am nwyddau pan oeddent yn cyrraedd, fel nad oedd yn rhaid cario arian drwy diroedd peryglus.

7 Byddai pobl Ewrop yn gorchuddio'r llawr gyda phridd a haenau o frwyn nes cafodd y rhain eu cyflwyno o Bersia.

8 Mae llawer o'r offer modern yn union yr un fath yn eu cynllun heddiw â'r rheiny a luniwyd gan Fwslim o'r enw Al-Sarâwi [Al-Zahrawi] yn y 10fed ganrif. Byddai meddygon modern yn adnabod llawer o'r 200 darn o gyfarpar a luniodd Al-Sarâwi.

9 Er bod gan Ewrop fersiynau cegin a pherlysiau o'r rhain, roedd y syniad o gael un i'w mwynhau ac i fynd iddi i fyfyrio'n dod o'r byd Mwslimaidd. Cawsent eu gweld yn Ewrop yn gyntaf yn yr 11eg ganrif yn Sbaen Fwslimaidd ac mae'r tiwlip a'r carnasiwn yn ddau o'r blodau sydd wedi datblygu o'r rhain.

10 Mae llawer o'r geiriau a ddefnyddiwn yn aml yn yr iaith Saesneg heddiw yn dod o wreiddiau Arabaidd – e.e. algebra, genie, gerbil, mocha, saffron, sofa, talc, zero.

Dim ond 10 yw'r rhain o nifer enfawr o gyfraniadau Mwslimaidd. Gallai'r bobl ifanc ymchwilio ymhellach i hyn fel gweithgaredd ymhelaethu. Mae'r wefan isod yn lle da i gychwyn: 1001 o gyfraniadau **www.muslimheritage.com**

GWEITHGAREDD 2: ERLEDIGAETH A PHROPAGANDA (25 MUNUD)

Mae'r gweithgaredd yma'n edrych ar y ffordd y cafodd pobl Iddewig eu trin yn yr Almaen yn y 1930au ac mae'n annog pobl ifanc i ystyried mor ddifrifol yw'r canlyniadau'n aml iawn pan fydd grŵp arbennig o bobl yn cael y bai gan y gymdeithas y maent yn byw ynddi, fel nad oes neb arall yn cael y bai.

Mae'r adran hon o'r ffilm yn cyfeirio hefyd at erledigaeth Iddewon a phobl Romani, ac mae'n cyfeirio at yr Holocost yn yr Ail Ryfel Byd. Gofynnwch i'r bobl ifanc beth yw ystyr 'erledigaeth' yn eu barn nhw.

ERLEDIGAETH: ENW; **CAMDRINIAETH SYSTEMATIG O UNIGOLYN NEU GRŴP DROS GYFNOD HIR OHERWYDD EU HIL, EU CREFYDD NEU EU CREDOAU GWLEIDYDDOL.**

Cafodd yr Iddewon a'r Teithwyr eu herlid cyn yr Ail Ryfel Byd, ac yn ystod y rhyfel, dan y cyfreithiau a basiwyd gan lywodraeth Natsïaidd y cyfnod. Cafodd yr Iddewon a'r teithwyr eu labelu yn yr Almaen Natsïaidd fel 'Untermenschen', oedd yn golygu 'Is na Dynol'. Cafodd yr Iddewon, y teithwyr, gwrywgydwyr, pobl sâl eu meddwl a'r anabl eu herlid yn yr Almaen ar y pryd. Cawsent eu herlid drwy'r gyfraith a'u cymryd i wersylloedd crynhoi neu cawsent eu gorfodi i gael eu sterileiddio. Cafodd miliynau eu lladd.

Llwyddodd y Natsïaid i berswadio'r cyhoedd Almaenaidd i gefnogi eu cyfreithiau drwy roi'r bai ar Iddewon, teithwyr a grwpiau lleiafrifol eraill am unrhyw broblemau oedd yn bodoli yn yr Almaen ar y pryd. Roeddent hefyd yn hybu ideoleg hiliol oedd yn dangos bod Almaenwyr gwyn ar frig yr hierarchaeth ddynol. Gallent wneud hyn drwy bropaganda. Gofynnwch i'r bobl ifanc beth yw ystyr propaganda.

PROPAGANDA: ENW; **GWYBODAETH, SYNIADAU, BARN NEU LUNIAU, SYDD YN AML IAWN YN RHOI UN RHAN O DDADL YN UNIG, SY'N CAEL EU DARLLEDU, EU CYHOEDDI NEU EU LLEDAENU MEWN FFORDD ARALL GYDA'R BWRIAD O DDYLANWADU AR FARN POBL.**

Esiamplau o bropaganda

"Nod yr Iddew yw ei wneud ei hun yn rheolwr ar ddynoliaeth gyfan. Lle bynnag mae'n mynd mae'n dinistrio gwaith diwylliannau. Nid yw'n ysbryd creadigol, ond yn ysbryd dinistriol."

"Mae'r Iddewon wedi gwneud bywydau miloedd ar filoedd o Almaenwyr yn druenus a'u gadael yn dlawd. Cafodd ffermwyr yr oedd eu tiroedd wedi bod yn y teulu am fwy na 100 mlynedd, eu gorfodi i adael am na allent dalu'r llog."

– **y ddau ddyfyniad o'r pamffled addysgol i ysgolion 'Catecism Cenedlaethol yr Almaen' (1934)**

"Wrth gwrs, mae'r Iddewon yn bobl hefyd. Does neb ohonom wedi amau hynny. Ond mae chwannen yn anifail hefyd. Ond nid yw'n anifail braf iawn. Am nad yw chwannen yn anifail braf, does dim rhaid i ni ei amddiffyn na'i ddiogelu, na gofalu amdano er mwyn iddo ein brathu, ein poenydio a'n harteithio. Yn hytrach, rydym yn tynnu ei bwerau oddi arno. Mae'r un fath gyda'r Iddewon."

– **Joseph Goebbels, wedi'i ailgynhyrchu yn y pamffled 'Deg ymateb i Lacis Iddewig' (1936)**

Trafodaeth

- Roedd Iddewon wedi byw yn yr Almaen ers y 4edd Ganrif a doedden nhw ddim wedi gwneud unrhyw ymgais i feddiannu'r Wlad, heb sôn am geisio meddiannu'r byd i gyd! Roedd Iddewon wedi cyfrannu at ddiwylliant ledled y byd, nid ei ddinistrio. Er enghraifft, roedd cwmni theatr Iddewig wedi bod yn perfformio ledled Ewrop (yn cynnwys yr Almaen) ers 1886. Pam fyddai propagandwyr eisiau darlunio'r Iddewon fel pobl ddinistriol?
- Yn yr ail esiampl, mae'r Iddewon yn cael y bai am y ffaith fod miloedd o Almaenwyr mewn tlodi ac am yrru ffermwyr o'u cartrefi. Sut fyddai'r datganiad yma'n debygol o effeithio ar Almaenwyr tlawd? A oes paralelau gyda sefydliadau modern a'r hyn sydd yn y cyfryngau sy'n beio gwahanol grwpiau o bobl am brinder swyddi a thai a'r sefyllfa economaidd wael?
- Mae'r ddwy esiampl gyntaf o bropaganda'n dod o bamffled i ddisgyblion ysgol. Pam fyddai hi'n bwysig i'r Natsïaid ledaenu eu syniadau ymysg y bobl ifanc?
- Mae'r esiampl olaf o bropaganda'n cymharu'r Iddewon â chwain. Beth mae hyn yn ei ddatgelu am agwedd y Natsïaid tuag at yr Iddewon? Beth oedd Goebbels yn ei olygu pan ddywedodd "rydym yn tynnu ei bwerau oddi arno. Mae'r un fath gyda'r Iddewon"?

RHESTR O DERMAU ISLAMAIDD:

AL-LÂH Yr enw Islamaidd am Dduw yn yr iaith Arabeg. Maent yn defnyddio'r gair yma yn hytrach na'r gair Duw, mae'r term Arabeg yma'n unigol, does dim lluosog iddo, ac nid yw wedi'i gysylltu â nodweddion gwrywaidd, benywaidd na diryw.

AL-LÂH W ACBAR *[ALLAHU AKBAR]* Al-lâh yw'r Mwyaf Gwych.

A SALAMW ALEICWM *[AS-SALAMU-ALAYKUM]* Heddwch i chi. Cyfarchiad Islamaidd.

ÎD *[EID]* Îd yw'r ŵyl sy'n dilyn Ramadan. Mae'n dathlu'r mis o ymprydio y mae'r bobl wedi'i gyflawni. Yn yr ŵyl yma hefyd mae bwyd a diod a llawer o berthnasau'n ymweld.

FFATWA *[FATWA]* Yr arweiniad cyfreithiol gan gyfreithegwr ac ysgolhaig Mwslimaidd gwybodus, cyfiawn a chrefyddol, wedi'i seilio ar y Corân, Sunnah a'r Sharî'a Islamaidd.

HADÎTH Dywediad; adroddiad; disgrifiad. Dywediadau'r Proffwyd Mohamed *[Muhammed]* fel y cawsent eu pasio ymlaen gan ei deulu a'i gymdeithion. Mae cyfran fawr o'r gyfraith Islamaidd yn deillio o'r rhain. Cyfeirir at rai Hadith fel Hadîth Qudsi (Hadîth sanctaidd) am eu bod wedi'u cyfathrebu'n ddwyfol i'r Proffwyd Mohamed.

HAJ Pererindod flynyddol i Mecca, y mae'n rhaid i bob Mwslim ei wneud o leiaf unwaith yn ei fywyd/ei bywyd os oes ganddo/ganddi'r iechyd a'r cyfoeth. Yr enw ar ddyn Mwslimaidd sydd wedi cyflawni Haj yw Haji, a'r ferch yw Haja.

HALÂL Unrhyw weithred neu beth sy'n cael ei ganiatáu neu sy'n gyfreithiol.

HARÂM Unrhyw beth anghyfreithlon neu nad yw'n cael ei ganiatáu.

HIJÂB Dyma'r gair a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio'r sgarff pen neu'r wisg blaen a wisgir gan ferched sy'n gorfod gorchuddio popeth heblaw eu hwynebau a'u dwylo o flaen unrhyw un heblaw eu teulu agos.

ÎD-EL-FFATR *[EID-AL-FITR]* Dathlu torri'r ympryd ar y diwrnod ar ôl i Ramadan ddod i ben, sydd hefyd yn ddiwrnod cyntaf Shawâl, y degfed mis Islamaidd. Enw arall arno yw Îd-el-Sarîr *[Eid-al-Saghir]* – yr Îd Llai – a gwledd siwgr Sheker Bayram (Twrcaidd).

IMÂM Arweinydd. Person sy'n arwain y weddi gomunol neu sylfaenydd ysgol gyfreitheg Islamaidd. Yn Islam Shi'a, Imam yw teitl Ali (bydded Al-lâh yn bles ag o) a'i olynwyr hefyd.

IMÂN Ffydd.

ISLAM Heddwch sydd wedi'i sicrhau drwy ufudd-dod parod i arweiniad dwyfol Al-lâh.

JIHAD Brwydr unigol bersonol yn erbyn drygioni yn ffordd Al-lâh. Gall hefyd olygu amddiffyniad y gymuned Fwslimaidd ar y cyd.

CA'BA *[KA'BAH]* Adeilad siâp ciwb yng nghanol y mosg mawr yn Mecca. Y tŷ cyntaf a adeiladwyd i addoli'r Un Gwir Dduw.

MADRASA Mae'r term yma, sef yn llythrennol 'ysgol' mewn Arabeg, yn cyfeirio fel arfer at ysgol grefyddol Islamaidd lle bydd plant ifainc yn cael eu dysgu am gyfraith Islamaidd a thestunau sanctaidd.

MECCA Y ddinas lle cafodd y Proffwyd Mohamed ei eni, a lle mae'r Ca'ba.

MWA'DDIN Y sawl sy'n galw pobl i weddïo. Yr enw Saesneg arno yw 'muezzin'.

MOHAMED Addolwyd. Enw'r Proffwyd terfynol.

MWJAHIDÎN *[MUJAHIDEEN]* Yn llythrennol 'un sy'n arfer Jihad'.

MWSLIM Un sy'n honni ei fod/ei bod wedi derbyn Islam.

CORÂN *[QUR'AN]* Yr hyn a ddarllenir neu a adroddir. Y Llyfr Dwyfol a ddatgelwyd i'r Proffwyd Mohamed. Datgeliad terfynol Al-lâh i'r ddynoliaeth.

RAMADAN Nawfed mis y calendr Islamaidd. Yn ystod y cyfnod yma mae gofyn ymprydio o'r cyfnod cyn iddi wawrio nes bydd yr haul yn machlud, fel y mae Al-lâh wedi'i orchymyn yn y Corân.

SADAGA *[SADAQAH]* Taliad gwirfoddol neu weithredoedd da i bwrpasau elusennol.

SÔM *[SAWM]* Ymprydio o'r cyfnod cyn iddi wawrio nes bydd yr haul yn machlud. Mae angen peidio â bwyta nac yfed (gan gynnwys yfed dŵr) nac ysmygu nac ymgymryd â gweithredoedd rhywiol.

SHAHÎD Y credwr sy'n marw wrth frwydro yn ffordd Duw. Caiff y gair yma ei gyfieithu'n aml iawn fel 'merthyr', ond mae ganddo hefyd yr ystyr wreiddiol 'tyst' – mae'r shahid wedi tystio neu ddangos Shehâda i'w ffyrdd ar faes y frwydr.

SHARÎ'A Cyfraith Islamaidd sydd wedi'i seilio ar y Corân a Sunnah.

SHI'A Dilynwyr. Mwslimiaid sy'n credu yn yr Imama, olyniaeth Ali (Bydded Al-lâh yn bles ag o) ar ôl y Proffwyd Mohamed ac 11 o'i ddisgynyddion mwyaf gwybodus a chrefyddol.

SUNNI Mwslimiaid sy'n credu yn olyniaeth Abw Bacr *[Abu Bakr]*, Omar, Othmân, ac Ali (Bydded Al-lâh yn bles â nhw) ar ôl y Proffwyd Mohamed.

CYRRAEDD ADNODDAU ALLANOL

Gallwch gael gafael ar adnoddau allanol drwy'r cysylltiadau ar **www.theredcard.org**

CYSYLLTIADAU

DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

PO Box 141, Whitley Bay, Tyne & Wear NE26 3YH
Ffôn: 0191 257 8519
ebost: info@theredcard.org
www.theredcard.org

DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH CYMRU

65 Ffordd Penarth, Grangetown,
Caerdydd CF10 5DL
Ffôn: 02920 340 422
ebost: info@theredcardwales.org
www.theredcardwales.org

DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH YR ALBAN

GMB Union, Fountain House,
1-3 Woodside Crescent, Glasgow G3 7UJ
Ffôn: 0141 332 8566
ebost: info@theredcardscotland.org
www.theredcardscotland.org

Rhif Elusen Gofrestredig: 1116971
Rhif Cofrestru'r Cwmni: 5834708
© Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

CYDNABYDDIAETHAU

Ysgrifennwyd gan Sarah Soyei, Laura Fleck, Lizz Bennett, Zoobia Aslam a Fiona Ranson.

Diolch i Yannis Xamonakis, Na'eem Raza, Abu Tayeb Khairdeen, Mary Rack a Gav Sutherland am eu cyngor a'u cyfraniadau.

Ariannwyd y gwaith hwn gan Sefydliad Northern Rock, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) a Rhaglen Undod Newcastle.

Amcanion Rhaglen Undod Newcastle yw:

- Cynyddu hyder a gallu pobl i ymdrin yn uniongyrchol ag arwyddion o eithafiaeth mewn cymunedau Mwslimaidd
- Gwneud pobl yn fwy croengaled wrth glywed negeseuon eithafol treisgar a datblygu ffyrdd o helpu unigolion i wrthsefyll negeseuon o'r fath
- Gostwng yr ofn ymysg cymunedau Mwslimaidd
- Gweithio gyda phartneriaid o grefyddau amrywiol i herio hiliaeth ac Islamoffobia
- Cynyddu'r cysylltiad â'r ymddiriedaeth rhwng cymunedau Mwslimaidd ac asiantaethau dinesig
- Datblygu deialog a gweithio ar y cyd ar faterion sy'n ymwneud ag eithafiaeth dreisgar
- Cynnwys ac ymgysylltu â holl adrannau'r gwahanol gymunedau Mwslimaidd, gan gynnwys pobl iau a merched